Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4:
Cas-bach i Fagwyr

Arddangosfeydd Galw Heibio
Adroddiad Trawsgrifiedig o'r Holl Sylwadau a Dderbyniwyd

25 – 27 Ionawr, 2 Chwefror

Cyflwyniad i'r adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am:

- Yr **arddangosfeydd** eu hunain – ble a pha bryd y cawsant eu cynnal, pwy gafodd wahoddiad a phwy fynychodd, a barn pobl amdanynt

- **Cyd-destun** Rhaglen Fesurau Gwella Coridor yr M4 a'r broses a gychwynnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wrando ar farnau pobl er mwyn helpu llunio Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4: Cas-bach i Fagwyr

- **Beth mae pobl wedi'i ddweud** am
  - **broblemau** yn gysylltiedig â theithio a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng nghoridor yr M4: Cas-bach i Fagwyr,
  - y **cyrchnodau** y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn ceisio'u cyflawni er mwyn datrys y problemau hyn, a
  - yr hyn y dylai **nodau** cyffredinol y Rhaglen fod.

Mae'r adroddiad yn cynnwys saith adran:

		Tudalen
1.	**Crynodeb**	3
2.	**Yr arddangosfeydd** – pam, ble a pha bryd y cawsant eu cynnal, sut y dywedwyd wrth bobl amdanynt ac ychydig ynglŷn â phwy ddaeth iddynt	6
3.	**Gwybodaeth gefndir am Raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4** – dyma'r deunydd a gafodd ei arddangos yn yr arddangosfeydd galw heibio, fel bod pawb yn cael dealltwriaeth sylfaenol debyg o'r hyn yw Mesurau Gwella Coridor yr M4, a'r hyn yr oeddwn yn gofyn i bobl ei wneud yn yr arddangosfeydd, yn ogystal â'u hysbysu ynghylch beth fydd yn digwydd nesaf	8
4.	**Problemau'n g**ysylltiedig â theithio a wynebir yng Nghoridor yr M4: Magwyr i Gas-bach	10 24
5.	Y **cyrchnodau** y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn ceisio'u cyflawni	
6.	**Nodau** ar gyfer Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 hyd at 2020, ac ar gyfer yr un ardal, yn y tymor hwy	36 40
7.	**Adborth ar yr arddangosfa ei hun**, gan gynnwys unrhyw neges derfynol i LICC	

Adrannau 3 – 7 yw'r trawsgrifiadau gair am air o'r sylwadau a roddwyd ar y ffurflenni adborth (yn yr arddangosfeydd a thrwy'r post), o'r siartiau troi a'r map yn yr arddangosfa ac mewn ffyrdd eraill (e.e. ysgrifennu sylwadau, sylwadau llafar).
Nid ydynt wedi'u golygu o gwbl. Lle nad oedd modd deall yr ysgrifen, rydym wedi dynodi hyn gyda marc cwestiwn (?). Rydym wedi rhoi'r holl sylwadau am bob problem, cyrchnod a nod gyda'i gilydd. Hefyd, rydym wedi grwpio ynghyd y sylwadau sy'n dynodi cytundeb cyffredinol â'r broblem, cyrchnod neu nod fel y'u disgrifiwyd gan LICC, ac rydym wedi grwpio ynghyd y rheiny lle dynododd y cyfranogwr nad oedd ar y cyfan yn cytuno â disgrifiad LICC o broblem, cyrchnod neu nod penodol.

Beth nesaf?

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i thîm yn ystyried yr adroddiad hwn er mwyn adolygu ac ymadnewyddu ei barn am y Problemau'n gysylltiedig â theithio y mae angen mynd i'r afael â nhw yn ardal Coridor yr M4: Magwyr i Gas-bach, yn ogystal â Chyrchnodau a Nodau'r cynigion sydd i'w datblygu i fynd i'r afael â'r problemau hyn dros y blynyddoedd nesaf, hyd at 2020. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i thîm hefyd yn ystyried y barnau a gynigiwyd gan gyfranogwyr mewn gweithdai a gynhaliwyd yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth - cynrychiolwyr sefydliadau cyhoeddus, preifat a sefydliadau'r trydydd sector yn ogystal â chynrychiolwyr etholedig - yn ystod yr adolygiad a'r ailwerthusiad o'r problemau, y cyrchnodau a'r nodau ar gyfer Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4. Byddwch yn gallu gweld yr adroddiadau o'r gweithdai hefyd, ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru (gweler y manylion isod).

Rhwng nawr a Hydref 2011 bydd y tîm yn parhau i siarad â phobl sydd â buddiant yn y materion y tynnir sylw atynt yma er mwyn datblygu mesurau newydd posibl a all gyflawni'r cyrchnodau a osodwyd o fewn ffrâm amser y Rhaglen. Bydd cyfle i bawb gynnig sylwadau eto pan fydd cynigion posibl, manwl wedi'u llunio. Mae'n debyg mai tuag at ddiwedd y flwyddyn hon fydd hynny.

Dros y misoedd i ddod, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau â'r ddeialog gyda phobl er mwyn llunio Rhaglen Fesurau Gwella Coridor yr M4. Bydd y wefan (gweler y ddolen isod) yn cael ei diweddaru'n gyson gydag unrhyw ddatblygiadau pwysig.

Mae'r adroddiad llawn hwn ar gael ar y wefan http://cymru.gov.uk/trafnidiaeth. Am ychwaneg o wybodaeth am Raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 Magwyr i Gas-bach (M4 CEM), ymwelwch â thudalennau cynlluniau ffordd wefan Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Bydd pob adroddiad, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau eraill, yn cael eu cyhoeddi yma hefyd.

Gallwch hefyd ofyn am gael copi papur o'r adroddiad hwn wedi'i anfon atoch. Bydd adroddiad cryno o'r arddangosfa a'r cyfarfod cyhoeddus yn cael ei anfon at bawb a fynychodd yr arddangosfa ac a adawodd eu manylion cyswllt.

1. Crynodeb

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am ddiolch i bawb a ddaeth i'r arddangosfeydd galw heibio i gael mwy o wybodaeth am Raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4: Magwyr i Gas-bach. Mae'r amser a dreuliodd cyfranogwyr yn ystyried y deunydd a gyflwynwyd, ac yn rhoi adborth, wedi darparu degau o dudalennau o farnau a sylwadau defnyddiol, a bydd y rhain yn bwydo i'r cynlluniau ar gyfer y rhaglen yng ngham nesaf ei datblygiad.

Pwy ddaeth i'r Arddangosfeydd galw heibio?
Daeth bron i 90 o bobl i'r arddangosfeydd, ac o'r rheiny daeth oddeutu hanner i'r arddangosfa ym Magwyr; daeth pobl eraill i'r arddangosfeydd yng Nghanol Dinas Casnewydd, Llyswyry a Dyffryn. Ar gyfartaledd, treuliodd pobl 45 munud yn darllen, yn siarad â'r tîm a phobl eraill, ac yn ysgrifennu'u sylwadau.

Pam wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cynnal?
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgysylltu â phobl sy'n byw ac yn gweithio ar hyd y rhan hon o'r M4, er mwyn clywed yn y lle cyntaf yr hyn a ystyriant yw'r prif broblemau ar y coridor trafnidiaeth hwn, ac i glywed beth mae pobl yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn ceisio'i gyflawni.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn yr arddangosfeydd yn cael eu hastudio nawr er mwyn helpu sicrhau bod unrhyw atebion posibl, neu fesurau, sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o fewn cwmpas y rhaglen, yn mynd i'r afael cyn belled ag y bo modd â'r problemau'n gysylltiedig â theithio y mae pobl yn eu hwynebu ar goridor yr M4: Cas-bach i Fagwyr, ac yn helpu cyflawni'r nodau a osodwyd.

Beth oedd barn cyfranogwyr am yr arddangosfeydd galw heibio?
Dywedodd 9 o bob 10 o bobl a fynychodd yr arddangosfeydd eu bod hi'n hawdd iddynt roi eu barnau. Nododd rhai pobl sylwadau nad oedd yr arddangosfeydd wedi'u hysbysebu'n ddigon eang - byddai mwy o gyhoeddusrwydd wedi galluogi mwy o bobl roi eu barnau.

Dywedodd dwy ran o dair o'r cyfranogwyr bod digon o ddeunydd wedi'i gyflwyno yn yr arddangosfeydd. Nododd traean o'r cyfranogwyr y byddent wedi hoffi gweld mwy o wybodaeth. O'r rhain, dywedodd nifer o bobl y byddent wedi hoffi cael mwy o wybodaeth a thystiolaeth dechnegol; dywedodd pobl eraill y byddent wedi hoffi rhoi sylwadau ar atebion posibl. Dywedodd un unigolyn: *"roedd mwy nag yr oeddwn i wedi'i ddisgwyl".*

Dywedodd pawb a gynigiodd sylwadau fod y deunydd a gyflwynwyd yn eithaf hawdd neu'n hawdd iawn ei ddeall.

Barnau'r cyfranogwyr yn gryno
Mae sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi'r problemau mwyaf sylweddol yn ymwneud â thraffig ar Goridor yr M4: Cas-bach i Fagwyr.

Mynegodd lleiafrif bach o gyfranogwyr y farn fod y problemau a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn rhy gyffredinol, ac nid yw pob un ohonynt yn unigryw i'r rhan hon o goridor yr M4; yn hytrach, awgrymwyd eu bod yn broblemau sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o goridorau trafnidiaeth o amgylch dinasoedd y DU.

Rhoddodd cyfranogwyr ddisgrifiadau manwl o sawl problem leol benodol. Codwyd nifer o'r problemau penodol hyn dro ar ôl tro, e.e. problemau gyda Chyffordd 23A; problemau gyda Chyffordd 28; mae twneli Brynglas yn dagfa draffig; nid yw cynllunio (o fathau gwahanol) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol yn ddigon cydgysylltiedig; nid oes digon o fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.

Barnau cyfranogwyr am y problemau:
O'r 14 o broblemau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r rheiny a ddenodd y nifer fwyaf o sylwadau ac ymatebion yn mynegi cytundeb yn ymwneud ag:

- anawsterau o ran **cynnal llifoedd traffig digonol ar yr M4** ar adegau o **darfu dros dro**,
- mae dyluniad yr **M4** yn arwain at **dagfeydd rheolaidd ar adegau prysur,**
- bydd y ddwy broblem hon (uchod) **yn gwaethygu yn y dyfodol,**
- Nid yw nod LICC i greu **porth gwell i mewn i Gymru** yn cael ei fodloni ar hyn o bryd gan goridor yr M4.

Gan gytuno hefyd â'r broblem a fynegwyd yn gyffredinol, ond gyda niferoedd llai o ymatebion, nododd cyfranogwyr eu pryder ynghylch:

- Problemau'n ymwneud â **llygredd** ac **allyriadau nwyon tŷ gwydr**, yn deillio o draffig yn symud yn araf a thagfeydd ar yr M4, a
- **Gwaith cynnal a chadw** hanfodol mawr dros y pump i ddeng mlynedd nesaf yn arwain at gyfyngiadau ar lonydd ac ar gyflymder yn ychwanegu at broblemau tagfeydd

Roedd ymateb llai clir gan gyfranogwyr ynglŷn ag a yw risg gynyddol o darfu yn sgil **digwyddiadau tywydd eithafol** ar y coridor yn broblem. Dywedodd oddeutu hanner y rhai a gynigiodd sylwadau nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau'n cael eu hachosi gan lifogydd ar yr M4, ac awgrymwyd ganddynt nad yw hon yn broblem sylweddol o gymharu ag achosion eraill tarfu, a dywedont *"Mae pob system ffordd a rheilffordd mewn perygl o ddioddef tarfu yn sgil digwyddiadau tywydd eithafol. Nid yw hon yn broblem sy'n benodol i'r M4".*

Roedd eich barnau ar b'un a yw **sŵn** yn broblem ddifrifol yn amrywio, a nodwyd o leiaf ddau beth sy'n achosi sŵn problemus; traffig y draffordd, a gwaith cynnal a chadw a gwella yn ystod y nos. Dywedodd llawer o bobl nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau yn deillio o sŵn traffig ar yr M4.

Problemau ychwanegol a ddisgrifiwyd gan gyfranogwyr:

- Mae **ardaloedd** ac **amserau penodol sy'n creu problemau**, ac mae effaith ganlyniadol o dagfeydd ar y draffordd sy'n arwain at broblemau ar ffyrdd lleol e.e. *"twneli Brynglas yw'r dagfa, nid y traffyrdd sy'n arwain at y twneli ac oddi wrthynt"; "Mae'r tagfeydd wrth Gyffordd 28 yn broblem - mae'n effeithio ar lifoedd traffig yr M4 ac SDR".*
- Mae'r **dewisiadau amgen ar Fysiau a Threnau** ar y rhan hon o'r M4 yn **annigonol** ac yn ddrud
- Mae **defnydd cymysg** o'r draffordd gan **draffig lleol a thraffig hirdeithiog** yn broblem, e.e. *"Mae'r M4 yn cael ei ddefnyddio i gymudo ar draws tref"; "Mae'r M4 yng Nghasnewydd yn ffordd gyfleus ar draws y dref ac mae'n denu traffig ychwanegol sy'n gwneud y tarfu dros dro ar y draffordd gyfan hyd yn oed yn waeth".*
- Mae **traffig trwodd sy'n defnyddio ffyrdd lleol** yn broblem, yn enwedig ar amserau pan fo tagfeydd a / neu darfu dros dro ar yr M4.
- Roedd awgrymiadau bod y ddwy broblem olaf hon yn gysylltiedig â *"seilwaith annigonol yng Nghasnewydd"* neu *"dim dewis amgen i'r M4".*

- Yn ychwanegol at dagfeydd ar yr M4, roedd diffyg dewisiadau amgen effeithiol, gan gynnwys dulliau eraill o deithio ac effaith **Tollau** croesi dros Bont Hafren yn gysylltiedig â **rhwystro dyheadau** am **borth gwell i mewn i Gymru**.

Barnau cyfranogwyr ar y Cyrchnodau sydd i'w cyflawni:

O'r 12 o Gyrchnodau a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, roedd y rhan fwyaf o sylwadau'r cyfranogwyr, yn mynegi cefnogaeth gyffredinol, yn ymwneud â:

- gwneud y defnydd gorau o'r **M4 bresennol** a'r **rhwydwaith ffyrdd lleol**,
- **hyrwyddo defnydd mwy effeithiol o ddewisiadau amgen i'r M4**, gan gynnwys rhannau eraill o'r rhwydwaith trafnidiaeth a dulliau eraill o deithio ar gyfer siwrneiau lleol o amgylch Casnewydd
- ei gwneud hi'n **gyflymach ac yn haws** teithio o'r dwyrain i'r gorllewin yn Ne Cymru
- cynyddu lefel y **dewis ar gyfer siwrneiau**, ar y coridor: Magwyr i Gas-bach, a
- gwneud amserau teithio ar y coridor yn **fwy dibynadwy**
- roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cyrchnodau i **leihau lefelau allyriadau nwyon tŷ gwydr** fesul siwrnai ac i **leihau llygredd**

Cyrchnodau ychwanegol a ddisgrifiwyd gan gyfranogwyr:

- **Gwella rheolaeth traffig**, yn enwedig yn dilyn digwyddiadau. Awgrymodd nifer o bobl y dylid ceisio sicrhau rheolaeth draffig ddi-dor yn integreiddio'r draffordd a'r rhwydwaith teithio ehangach, ac y byddai hyn yn arwain at fesurau fel *"gwell arwyddion yn nodi problemau cyn mynd ar y draffordd fel y gellid dewis llwybr amgen".*
- **Annog pobl** yn gadarnhaol i ddefnyddio dulliau teithio **heblaw am eu car**
- **Newid agweddau ac ymddygiad** fel ein bod yn gwneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy yn gynyddol. Roedd eich awgrymiadau'n cynnwys: *"cynyddu ymwybyddiaeth o ddewisiadau amgen i'r car, neu ddewis peidio â gwneud siwrneiau unigol"; "mwy o fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus"; "gwneud mwy o ddefnydd o gynhwysedd ar reilffyrdd" ac "argyhoeddi pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus".*

- Datblygu cynllun trafnidiaeth ar gyfer coridor yr M4: Cas-bach i Fagwyr, sy'n rhan **o gynllun lleol a chynllun cenedlaethol unedig.**

Nodau:
Ar ôl gofyn i gyfranogwyr am eu barnau ar y problemau a'r nodau sydd i'w cyflawni, gofynnwyd iddynt ystyried y darlun mwy, drwy roi eu sylwadau ar y Nodau Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol a nodwyd ar gyfer Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4.

Er y mynegwyd cytundeb cyffredinol â phob un o'r nodau, y nodau'n ymwneud â deilliannau amgylcheddol ac economaidd a ddenodd y nifer fwyaf o ymatebion. Dywedodd rhai mai eu blaenoriaeth bennaf oedd annog ffyniant economaidd ar draws De Ddwyrain Cymru drwy gyflawni rhwydwaith trafnidiaeth mwy effeithlon. Mewn ymateb i'r nod hwn, awgrymodd rhai eraill fod *"ffyrdd eraill o fuddsoddi i gefnogi ac annog ffyniant yng Nghasnewydd"*.

Fe wnaeth cyfranogwyr ymateb i'r gwahoddiad i awgrymu Nodau ar gyfer y tymor hwy, ar gyfer 2020 a thu hwnt, nid drwy gynnig nodau tymor hwy, ond drwy awgrymu atebion posibl, *"adeiladu ar gyfer y dyfodol"* e.e. *"cyswllt rheilffordd cyflym: Llundain i Abertawe"; "gwella allyriadau CO2 o geir"; "adeiladu ffordd newydd ar ben y morglawdd (meddwl y tu allan i'r bocs!)"; "gwasanaeth rheilffordd ysgafn rhwng Cyffordd Twnnel Hafren - Maes Awyr Caerdydd".*

Pa negeseuon ychwanegol wnaeth cyfranogwyr eu hanfon at Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4?
Ymatebodd llawer o gyfranogwyr i gwestiynau ynglŷn â'r problemau yr oeddent wedi'u cael, neu i gyrchnodau, trwy gynnig atebion penodol i broblemau. Fe wnaeth llawer o bobl ddefnyddio'r adran sylwadau terfynol hefyd i gynnig nifer o atebion, neu'n fwy cyffredin, yr ateb yr oeddent yn ei ffafrio. At ei gilydd, awgrymwyd ystod eang iawn o atebion gan gyfranogwyr yn yr arddangosfeydd. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn ystod cyfnod nesaf y gwaith, ac ni chânt eu disgrifio ymhellach yma.
Dynododd nifer o gyfranogwyr gwir ymdeimlad o frys ynghylch dod o hyd i atebion i'r problemau roeddent yn eu cael.
Dywedodd nifer o bobl eu bod yn gobeithio ac yn disgwyl y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwrando ar y barnau a gasglwyd yn yr arddangosfeydd, a dangosont ddiddordeb mewn cynnig sylwadau pellach ar atebion posibl, neu fesurau, pan gaiff y rhain eu cyflwyno.

2. Yr Arddangosfeydd

Pam wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cynnal?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych ar y modd y gellir gwella teithio ar yr M4 ac o amgylch yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach dros y 10 mlynedd nesaf, ac maent eisiau gwybod beth ym marn pobl yw'r problemau ar y rhan hon o'r M4 ac o'i hamgylch, a beth ddylen ni fod yn ceisio'i gyflawni. Bydd y sylwadau a dderbyniwyd yn y arddangosfeydd galw heibio yn cyfrannu at LICC yn datblygu atebion posibl, ac maent wrthi'n cael eu dadansoddi.

Ymhle y cynhaliwyd yr arddangosfeydd?

Aethom ati i drefnu 4 arddangosfa. Roedd yr arddangosfeydd i gyd yr un fath, ac ar agor o 12pm – 7pm. Fe'u cynhaliwyd yn y lleoliadau canlynol:

- **Canol Dinas Casnewydd**, dydd Mawrth 25 Ionawr 2011 yn Neuadd Rodney, Cae Chwarae Dreigiau Casnewydd Gwent, Rodney Road, Casnewydd NP19 0UU
- **Llyswyry**, dydd Mercher 26 Ionawr 2011 yng Nghanolfan Gymunedol Dwyrain Casnewydd, 95 Moorland Park, NP19 4NB
- **Magwyr**, dydd Iau 27 Ionawr 2011 yn Eglwys y Bedyddwyr Ebenezer, Y Sgwâr, Magwyr, Sir Fynwy, NP26 3HY
- Ac yn **Dyffryn**, dydd Mercher 2 Chwefror 2011 yn Ysgol Uwchradd Duffryn, Lighthouse Road, Casnewydd NP10 8YD

Sut clywodd pobl am yr arddangosfeydd?

Anfonwyd gwahoddiadau at gynrychiolwyr etholedig lleol ac at grwpiau cymdeithasol, busnes ac amgylcheddol y credwn y gallai eu haelodau fod â diddordeb mewn materion yn gysylltiedig â theithio rhwng Magwyr a Chas-bach. Hefyd, cafodd posteri eu harddangos mewn llyfrgelloedd lleol, canolfannau cymunedol, Campws Prifysgol Casnewydd a mannau cyhoeddus eraill. Hysbysebwyd y digwyddiadau ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ar dudalennau busnes gwefan Cyngor Dinas Casnewydd. Anfonwyd datganiadau i'r wasg i'r cyfryngau lleol.

Pwy ddaeth i'r Digwyddiadau galw heibio?

Fe wnaeth 88 o bobl a oedd wedi cofrestru ar gyfer yr arddangosfeydd galw heibio fynychu, ac o'r rheiny daeth rhyw hanner ohonynt i'r arddangosfa ym Magwyr.

Nid oedd cyfran sylweddol iawn o'r bobl a fynychodd yn bobl a oedd mewn gwirionedd wedi clywed am yr arddangosfeydd drwy'r sefydliadau yr oeddem wedi'u gwahodd. Roedd llawer ohonynt yn bobl a oedd yn byw yng Nghasnewydd neu yn ardal Casnewydd a oedd yn wynebu rhyw fath o broblemau'n gysylltiedig â theithio yng nghoridor ac o gwmpas coridor yr M4: Magwyr i Gas-bach yn eu bywydau cartref, hamdden a/neu weithio.

Mae'r mapiau isod yn dangos o ble ddaeth y bobl a fynychodd yr arddangosfeydd galw heibio.



Beth wnaeth pobl yn yr Arddangosfeydd?

Ym mhob un o'r neuaddau, roedd yr arddangosfa wedi'i threfnu ar nifer o banelau. Wrth ddod i mewn roedd pobl yn cael eu croesawu a gofynnwyd iddynt ddangos ar fap ble'r oeddent yn byw (gweler uchod); fe'u gwahoddwyd i gofrestru hefyd os oeddent yn dymuno cael adroddiad ar ôl diwedd cyfnod yr arddangosfeydd. Dewisodd y rhan fwyaf o bobl gofrestru. Pan ddaeth pobl i mewn yn barau neu fwy, os mai ond un unigolyn a gofrestrodd, fe nodom y nifer ym mhob grŵp, er mwyn i'n cyfrif o'r nifer o bobl a fynychodd fod mor gywir ag y bo modd.

Rhoesom drosolwg i bawb a gyfranogodd o'r hyn yr oedd yr arddangosfa'n ei gynnwys, a'r hyn oedd yno iddynt wneud. Fe wnaethom eu tywys drwy'r panelau cyntaf, fel eu bod yn deall mai diben eu hymweliad yn bennaf oedd rhoi eu barnau i ni. Wrth gwrs, roedd pobl dechnegol wrth law i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan y cyfranogwyr a oedd yn berthnasol i Raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4.

Gofynnwyd i bobl roi eu barnau ar banelau siart troi ar y byrddau, fel eu bod hefyd yn gallu darllen barnau pobl eraill, ac os oeddent yn dymuno, ymateb iddynt.

Rhoesom y dewis i bobl hefyd i gael ffurflenni adborth, yn cynnwys gwybodaeth a chwestiynau cynorthwyol union yr un fath â'r rheiny ar y panelau. Aeth rhai pobl adref â'r ffurflenni adborth a'r amlenni rhadbost fel eu bod yn gallu ymateb yn eu hamser eu hunain, neu fynd â ffurflen at ffrindiau, perthnasau neu gydweithwyr. Ni dderbyniom unrhyw ffurflenni wedi'u llenwi drwy'r post.

Roedd y panelau a'r holl ddeunyddiau yn ddwyieithog, ac roedd yr aelodau staff yn yr arddangosfeydd yn siarad Cymraeg.

Roedd y panelau cyntaf yn sôn am y modd y cychwynnwyd Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4, ac yn gyffredinol, beth mae'n anelu i'w wneud. Atgynhyrchir hyn yn adran dau o'r adroddiad hwn. Mae'r adrannau eraill o'r adroddiad yn trawsgrifio barnau'r bobl a fynychodd yr arddangosfeydd yn gywir ac yn gyflawn, yn eu geiriau eu hunain.

Ar gyfartaledd, treuliodd pobl 45 munud yn darllen, yn siarad â'r tîm a phobl eraill ac yn ysgrifennu'u sylwadau.

3. Gwybodaeth gefndir am Fesurau Gwella Coridor yr M4 a ddangoswyd yn yr arddangosfeydd

Gwella teithio ar yr M4 ac o amgylch yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach: **Beth sydd dan sylw?**

Mae Traffordd yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn methu'n llwyr â chyrraedd safonau dylunio traffyrdd modern, mewn perthynas â chynhwysedd a diogelwch.

Bu problemau gyda thagfeydd traffig ac amseroedd siwrneiau annibynadwy yn ffaith bywyd ar yr M4 o amgylch Casnewydd ers blynyddoedd lawer.

Mae'r problemau hyn yn waeth ar adegau teithio prysur, ac, wrth i nifer y defnyddwyr ar y rhwydwaith gynyddu, byddant yn gwaethygu.

Fe wnaeth astudiaeth fanwl o broblemau'r system drafnidiaeth yn Ne Ddwyrain Cymru fesur y methiannau hyn a rhai eraill arwyddocaol.

Cafodd syniad traffordd liniaru ei archwilio ond, ym mis Gorffennaf 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru nad oedd y dewis hwn yn fforddiadwy rhagor.

Felly, fel rhan o strategaeth drafnidiaeth De Ddwyrain Cymru, sefydlwyd Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 (M4 CEM) rhwng Magwyr a Chas-bach i archwilio ffyrdd o wneud gwelliannau i'r M4 yn yr ardal uniongyrchol o gwmpas, a elwir yn goridor yr M4.



Coridor yr M4: Magwyr i Gas-bach

Beth sydd wedi'i wneud eisoes i sicrhau gwelliannau?

Er mwyn gwneud yr M4 yn fwy diogel i ddefnyddwyr, gosodwyd rhwystrau canolog concrit yn lle rhannau o rwystrau canolog dur.

Er mwyn lleddfu tagfeydd traffig, gwnaethpwyd gwelliannau hefyd i'r gylchfan yng Nghyffordd 24 yng Ngholdra. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi prynu'r ffordd sy'n mynd drwy waith dur Llanwern er mwyn creu cyswllt rhwng Cyffordd 23a a Ffordd Ddosbarthu'r De.

Beth sy'n digwydd ar y draffordd yn awr – gwaith cyfredol

I wella diogelwch a llif traffig ar yr M4 rhwng Coldra a Pharc Tredegar, mae System Amrywio Cyflymder wedi'i gosod a bellach yn cael ei chomisiynu. Defnyddiwyd Swyddogion Traffig i helpu atgyfnerthu'r mesurau diogelwch ac effeithlonrwydd hyn. Hefyd, mae rhwystrau canolog concrit wedi'u gosod yn lle rhannau pellach o rwystrau canolog dur.

Nodau cyffredinol Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4

Cymdeithasol: ei gwneud hi'n haws i bobl gyrraedd gwasanaethau fel siopau, ysbytai, gwasanaeth hamdden a mannau gweithio, ar y ffordd, trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio.

Economaidd: cefnogi ac annog ffyniant yn y rhanbarth a ledled Cymru drwy gyflawni rhwydwaith trafnidiaeth fwy effeithlon ar y porth economaidd pwysig hwn i Dde Cymru

Amgylcheddol: atal a lleihau effeithiau negyddol rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 ar bobl a'r amgylchedd, a lle bo'n ymarferol, darparu gwelliannau i gydbwyso yn eu herbyn.

Gyda phwy y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn siarad am hyn oll?

Dros y flwyddyn nesaf bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio barn ystod eang o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb mewn teithio ar yr M4, gan gynnwys y cyhoedd. Rydym eisiau clywed yn arbennig gan bobl yr effeithir arnynt fwyaf, er enghraifft gan eu bod yn byw neu'n gweithio'n agos at y draffordd.

Y digwyddiadau galw heibio hyn yw cam cyntaf y broses wrando hon.

Sut bydd fy sylwadau'n helpu?

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu'r holl sylwadau ar broblemau a chyrchnodau a dderbynnir gennych chi ac eraill, Byddwn yn defnyddio'r rhain i helpu llunio rhai mesurau ymarferol posibl i wella'r sefyllfa yng nghoridor yr M4. Nes ymlaen eleni, cewch gyfle i ddweud wrthym beth yw eich barn am y mesurau posibl hyn.

Sut galla' i gael y wybodaeth ddiweddaraf?

Gallwch fynd i www.cymru.gov.uk/trafnidiaeth - bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyhoeddi yno Gallwch hefyd roi eich manylion i ni heddiw i dderbyn adroddiad am yr arddangosfeydd galw heibio hyn, ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau newydd a chyfleoedd pellach i helpu llunio cyfnod nesaf y rhaglen

.

4. Problemau'n gysylltiedig â Theithio yng Nghoridor yr M4: Cas-bach i Fagwyr

Gofynnwyd i'r rheiny a fynychodd yr arddangosfa ystyried y problemau a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a nodi eu barn drwy:

- ✓ *roi tic wrth y problemau a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y maent yn cytuno y mae angen mynd i'r afael â nhw, neu*
- × *roi croes yn erbyn unrhyw rai nad ydynt yn ystyried eu bod yn broblemau, ac*

✍ *ychwanegu unrhyw sylwadau esboniadol – pam mae'r cyfranogwr yn cytuno neu'n anghytuno â'r hyn a ddywedir, neu drwy awgrymu newid i'r broblem a nodwyd*

✍ *Ar ddiwedd yr adran, gwahoddwyd cyfranogwyr i ddweud wrthym pa broblemau ychwanegol ddylid mynd i'r afael â nhw yn Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4*

Mae'r tablau yn yr adrannau canlynol yn cofnodi'n llawn ymatebion cyfranogwyr i bob problem a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym wedi grwpio ynghyd y sylwadau lle nododd yr awdur ei gytundeb / chytundeb â thic, neu groes i fynegi nad oedd o'r farn fod y broblem yn bodoli, nad ydynt yn wynebu'r broblem, neu os ydynt yn meddwl bod y broblem yn wahanol i'r hyn a fynegwyd.

Mae nifer y ticiau neu groesau yn cyfeirio at gyfanswm nifer y ticiau neu groesau a ddyfarnwyd gan gyfranogwyr ym mhob lleoliad mewn perthynas â'r broblem a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r sgorau negyddol (croesau) braidd yn gamarweiniol gan fod nifer o'r sylwadau yn ymhlygu bod y cyfranogwr wedi bwriadu nodi'r gwrthwyneb.

Problem 1. Anawsterau yn cynnal llifoedd traffig digonol ar yr M4 ar adegau o darfu dros dro	
Canol Dinas Casnewydd	
✓ (5)	Yn dilyn digwyddiad ar y draffordd, dylai arwyddion roi rhybudd o flaen llaw am oedi wrth groesfan Pont Hafren neu cyn hynny wrth deithio tua'r gorllewin.
	Mae arwyddion dargyfeirio ar hyd yr M4 yn ymddangos yn rhy hwyr ac nid ydynt yn cynnig llwybr amgen, e.e. gadael wrth y gyffordd nesaf er mwyn osgoi ciw.
	Cytuno pa bryd fydd y tarfu.
	Mae'r M4 yng Nghasnewydd yn heol gyfleus i groesi'r dref ac mae'n denu gormod o draffig, ac mae hynny'n gwneud y tarfu dros dro ar hyd y draffordd gyfan hyd yn oed yn waeth.
	Mae hon yn broblem fawr ac mae angen gwneud gwaith cyn gynted ag y bo modd.
	Edrych ar systemau technoleg i gynghori/dargyfeirio/rheoli traffig.
Llyswyry	
✓ (3)	Mae hefyd yn achosi tarfu/tagfeydd difrifol ar SDR Casnewydd pan fydd yr M4 yn cau.
	Mae angen llwybr(au) amgen.
	Gwneud yn siwr bod pob damwain a thagfeydd yn cael eu clirio'n gyflym iawn.
Magwyr	
✓ (31)	Rhwystredigaethau'n cael eu hachosi gan arwyddion cyflymder, pan nad oes unrhyw dystiolaeth weledol o reswm.
	Defnyddio system amrywio cyflymder er mwyn cynyddu cyflymder ar adegau tawel uwchlaw 50mya.
	Cyfyngiad 50mya ar waith ers blynyddoedd maith heb fod unrhyw waith neu ddim gwaith o gwbl yn cael ei wneud.
	Dim arwyddion ym Magwyr i'ch stopio rhag mynd ar yr M4. Dim help gan yr heddlu yng Nghasnewydd os ydych yn cael eich dargyfeirio i ffwrdd yng Ngholdra.
	Hefyd traffig penwythnos adeg gwyliau i mewn ac allan o Gymru.
	Darparu timau/cyfarpar pwrpasol i glirio damweiniau'n gyflym – defnyddio technoleg fodern i gofnodi gwybodaeth hanfodol.
	Caniatáu 60mya yn lôn allanol gwaith ar y ffordd, a chadw 50mya ar y lôn fewnol, er mwyn annog gyrwyr i oddiweddyd yn gywir a chynnal y llif.
	Mae damweiniau/achosion o gau'r ffordd yn achosi tarfu difrifol i Gasnewydd – mae'n "cau" yr holl ddinas fwy neu lai.
	Gormod o dagfeydd traffig ar yr M4.
	Gwell rheolaeth ar draffig. Gellid ymgorffori hyn yn y system rheoli cyflymder amrywiol, a dylid ymestyn hyn o

	amgylch ardaloedd problemus hysbys.
	Mwy o lonydd traffig.
	Gorfodi cyfyngiadau cyflymder yn llym.
	Traffig yn cael ei ddargyfeirio i ffwrdd yng Nghyffordd 23A ar hyd y B4245 i Langstone, gan achosi mwy o anhrefn traffig i drigolion lleol ar hyd y B4245.
Dyffryn	
✓ (9)	Oes. Pam? Cau'r M4 am gyfnodau hir yn ystod damweiniau, clirio'n fwy cyflym.
	Tagfeydd traffig wrth Gyffordd 28 yw prif achos tagfeydd traffig am ei fod yn effeithio ar lifoedd traffig yr M4 ac SDR. Gellid lleihau hyn drwy greu gwell mynediad wrth fynediad M48 Dwyrain Caerdydd. Rhywfaint o rinwedd mewn cyfyngiadau cyflymder amrywiol.
	Mae unrhyw broblemau yn nhwneli Brynglas yn dod â'r M4 i stop. Mae angen dargyfeiriad amgen arnom.
	Mae angen i'r gwasanaethau brys glirio damweiniau'n gyflym.
	Defnydd strategol o rwydwaith cyfan Cefnffyrdd De Cymru.
	Mae problem 2 yn gwneud hyn yn waeth – diffyg cynllun argyfwng.

Canol Dinas Casnewydd	
× (3)	Nid oes dewis amgen i'r M4 nad yw'n peri i Gasnewydd arafu a stopio, gan achosi trasiedi economaidd.
	Nid oes ots gen i aros mewn traffig i fynd drwy Dwneli Brynglas (mae'n gyflymach na mynd oddi ar yr M4).
	Nid wyf yn siŵr nad yw'r broblem hon yn cael ei gorliwio gan y rheiny sy'n meddwl nad yw gweddill y rhwydwaith yn rhan o'r broblem.
Magwyr	
× (2)	Mae hyn yn digwydd ar bob traffordd – nid ar yr M4 yn unig.
	Nid yw ddim gwaeth nag unrhyw draffordd arall 3 lôn.
Dyffryn	
× (1)	A ddylid ei helpu gyda chyfyngiad cyflymder o 50mya?

Problem 2. Mae mwy o draffig yn defnyddio'r M4 o amgylch Casnewydd nag y dyluniwyd y ffordd i ymdopi ag ef, ac mae hynny'n arwain at dagfeydd rheolaidd ar adegau prysur.	
Canol Dinas Casnewydd	
✓ (5)	Mae i weld yn gwaethygu.
	Mae'n deillio o'r M4 yn cael ei defnyddio ar gyfer cymudo ar draws y dref.
	Fe'i dyluniwyd yn ystod y rhyfel diwethaf.
	Byddai hynny'n wir am y rhan fwyaf o draffyrdd. Mae hyd yn oed yn waeth yng Nghasnewydd.
	Mae Cyffordd 23 – Gyffordd 29 ar yr M4 yn dagfa draffig fawr o gymharu â'r rhannau i'r dwyrain a'r gorllewin.
Llyswyry	
✓ (2)	Mae angen Ffordd Liniaru/traffordd i'r de. Gall llygredd atmosfferig fod yn achosi problemau iechyd sylweddol.
	Mae angen llwybr newydd o amgylch Casnewydd.
Magwyr	
✓ (26)	Mae'n cael ei achosi gan Dwneli Brynglas yn bennaf.
	Dylid cael gwared ar rai o'r cyffyrdd – maent yn cael eu defnyddio gan bobl leol fel ffordd leol.
	Byddai cael gwared ar rai o'r cylchfannau ar SDR yn ei wneud yn ffordd amgen ddeniadol.
	Mae SDR yn dod allan cyn Cyffordd 28, ac yn achosi tagfeydd wrth gylchfan Pont Ebwy.
	Gohirio gosod ramp oddi ar yr M48 yng Nghil-y-coed.
	Dim digon o lonydd ar yr M4, h.y. dylai fod 4 lôn (x 2)
	Yr uchod ac yn ystod gwaith yn y nos – mae cerbydau nwyddau trwm yn aflonyddu ar gwsg trigolion!
	Gormod o groesffyrdd rhwng Cyffordd 24 a Pharc Tredegar.
	Gormod o siwrneiau lleol oherwydd seilwaith annigonol yng Nghasnewydd
	Byddai'n iawn pe ba 3 lôn ar hyd y ffordd gyfan. Y twnnel yw'r broblem.
	Rhoi stop ar feddiannu lonydd.
	Gwneud i'r SDR lifo'n well fel ffordd amgen.
Dyffryn	
✓ (8)	Oes
	Mae'r ddau lif amgen o'r dwyrain i'r gorllewin yn dibynnu ar Gyffordd 28 lle maent yn cyfarfod, nid oes ots pa

	ddewis amgen a gymerwch, bydd rhaid i chi ddefnyddio Cyffordd 28.
	Cytuno'n llwyr.
	Cytuno'n llwyr – rhaid mynd i'r afael ag ef.
	Mae Twneli Brynglas yn rhwystr mawr.
	Mae'r boblogaeth wedi bod yn tyfu allan o reolaeth, dyna sydd wedi achosi hyn.

Casnewydd	
× (3)	Dylid mynd ati o hyd i adeiladu M4 "newydd" ! Dim ond yr un peth fyddwch chi'n gwneud i'r gorlwythi yng Nghasnewydd, e.e. SDR. Aros i weld beth fydd y cyfyngiad cyflymder amrywiol yn ei gyflawni.
Dyffryn	
× (1)	Mae'n broblem yn y rhan fwyaf o ddinasoedd.

Problem 3. Rhagwelir y bydd lefelau traffig yn parhau i gynyddu, felly bydd problemau 1 a 2 yn gwaethygu dros gyfnod.	
Casnewydd	
✓ (5)	Senario annymunol.
	Angen dod o hyd i ffyrdd i fynd â'r traffig oddi ar y draffordd, e.e. Parcio a Theithio i'r rheiny sy'n mynd i Gaerdydd a Chasnewydd.
	Bydd y gwelliannau cyfredol yn helpu, ond nid ydynt yn ateb hirdymor.
	Mae wedi digwydd dros y 30 mlynedd diwethaf, a dylem gydnabod y bydd yn parhau.
Llyswyry	
✓ (2)	Oes, mae angen llwybrau lliniaru ar fyrder.
	Oes
Magwyr	
✓ (26)	Cytuno.
	Gwella gwasanaethau cyhoeddus (rheilffordd/bysiau)
	Cytuno – ond gall cost petrol wneud i bobl feddwl ynglŷn â siwrneiau.
	Mae'r arosfan rheilffordd gerllaw Neuadd Gymuned Magwyr neu Gwndy (yn agos at reilffordd, mae'r parcio yno'n barod!)
	Dylid gwella trafnidiaeth gyhoeddus.
	Ailgyflwyno gorsafoedd rheilffordd ym Magwyr.
	Datblygu trefn Parcio a Theithio wrth gyffordd Twnnel Hafren, ailagor gorsaf (reilffordd) Magwyr yn y dyfodol.
	Byddai trefn Parcio a Theithio ger Coldra yn lleihau'r pwysau ar Gyffyrdd 25 – 26 (x 2)
	Gwell trafnidiaeth gyhoeddus. Ie, gyda chymhorthdal.
	Cytuno x 3
	Cytuno a bydd datblygiad tai preswyl newydd yn Langstone a'r cyffiniau yn cynyddu traffig lleol.
	Gwella trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig trenau.
	Cytuno, ond mae angen i'r ateb osgoi'r twneli.
	Rhoi stop ar feddiannu lonydd – gwneud i yrwyr ddefnyddio'r lonydd allanol yn gywir.
	Uwchraddio'r SDR – mae'n berffaith addas fel llwybr amgen.
Dyffryn	
✓ (7)	Mae gan fwy o bobl ifanc geir.
	Nid yw'n digwydd o angenrheidrwydd yn sgil costau petrol cynyddol.
	Rwy'n cytuno nad yw trafnidiaeth gyhoeddus ar gael i bawb, nac yn ddibynadwy. Nac yn gost effeithiol.
	Oes!

Casnewydd	
× (3)	Rhaid i'r economi fregus a dirlawnder leihau hyn rhywfaint.
	Nid yr SDR yw'r ateb. Ei ddiben yw dosbarthu nwyddau, ac ati, i rannau o Gasnewydd, yn enwedig y cysylltiadau De Ddwyrain a De Orllewin.
	Gwneud rhywbeth i'w rwystro rhag tyfu – herio'r ffordd y mae pobl yn meddwl – ac ymboeni hefyd ynglŷn â sut bydd bywyd pan fydd prisiau olew yn codi'n aruthrol wrth i gyflenwadau ddod i ben.

Dyffryn	
× (2)	Cytuno â'r sylwadau ar y cynnydd mewn treth tanwydd.
	Bydd cost rhedeg cerbydau yn codi mor uchel, fel y bydd llai o gerbydau'n teithio ar y ffordd.

Problem 4. Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth presennol yn gweithredu fel cyfyngiad ar dwf economaidd.	
Casnewydd	
✓ (3)	? A oes unrhyw dystiolaeth ar gyfer y broblem ddatganedig hon – gall fod yn fyth trefol.
	? Nid yw'n wir. Mae problem sylfaenol ddaearyddol beth bynnag – mae Cymru gormod i'r gorllewin.
	Ydy, ond y ffactor mwyaf cyfyngol yma yw toll Pont Hafren.
	Cytuno.
	? Y prif gyfyngiad yw tollau'r bont! Os oes "rhwystr" ar yr M4, mae pob ffordd yng Nghasnewydd yn arafu ac yn stopio – mae hyn yn ddigon i rwystro pawb. Ni fydd yr SDR yn datrys hyn!
	Cael gwared ar dollau Pont Hafren.
Llyswyry	
✓ (2)	Ydy! Mae llwybrau Gorllewin Cymru/Iwerddon yn cael eu torri i ffwrdd ar adegau.
	Ydy "Ond" mae angen cael gwared ar doll y bont
Magwyr	
✓ (11)	Mae'r traffig dros y bont ac o'r M50 i gyd yn mynd drwy Gasnewydd – ffordd well i Gaerdydd?
	Trenau/lleol a'r Ddinas – y Ddinas.
	Cytuno.
	SWIMM, sefydliad rhwydweithio yn ne ddwyrain Cymru - mae pob un o'n haelodau'n canfasio'n barhaus am welliannau i'r ffordd, gan fod Twneli Brynglas yn gweithredu fel rhwystr i ddatblygu i'r gorllewin.
	Gwell gwasanaethau bysiau/coetsis (e.e. Express i Gaerdydd).
	Mwy o ddefnydd o'r rheilffordd – ased nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol – terfynfa ymgyfnewid cerbydau nwyddau
	Bydd trydanu'r rheilffordd yn helpu, ond mae tollau'r bont yn parhau yn anghymhelliad.
Dyffryn	
✓ (7)	Cytuno, hefyd tollau Pont Hafren.
	Mae angen rhwydwaith trafnidiaeth gwell o lawer ar Gymru.
	Ydy.
	Mae angen rhoi blaenoriaeth ar y draffordd i gerbydau nwyddau trwm.
	Tagfeydd traffig, yn enwedig wrth y twneli, dibynadwyedd amserau siwrneiau.

Casnewydd	
× (1)	Beth yw'r dystiolaeth?
Magwyr	
× (1)	Defnyddio'r rheilffyrdd.
Dyffryn	
× (2)	Anghytuno – mae cost y bont yn rhy ddrud!

Problem 5. Mae angen gwaith cynnal a chadw hanfodol helaeth ar yr M4 o fewn y 5-10 mlynedd nesaf.	
Casnewydd	
✓ (7)	Mae'n rhaid ei wneud – byddai'n well gwella'r ffyrdd sydd gennym na chreu mwy o ffyrdd.
	Yn hollol!
	Gweler beth ddigwyddodd pan oedd y gwaith ar ffordd yr A40/A48 ger Caerloyw – rhaid cael dewis amgen.

	Mae hyn yn dangos pam mae angen ffordd liniaru arnom.
	Mae angen mesurau lliniaru drwy SDR Casnewydd, ac ati.
	Bydd hyn yn annioddefol oni bai bod mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith.
	Yna adeiladwch yr M4 "Newydd" yn lle hynny.
Llyswyry	
✓ (1)	Parhau i weithio yn ystod y nos pan fydd modd.
Magwyr	
✓ (19)	Cytuno.
	Mae'r M4 rhwng Magwyr a Thredegar i weld yn cael ei hatgyweirio byth a hefyd.
	Mae angen sylw cyson ar draffyrdd prysur, felly dylid gwneud mwy o ymdrech i hyrwyddo a gwella'r rheilffyrdd.
	Mae arwyddion Matrics yn dangos y wybodaeth anghywir yn aml.
	Gwell rheolaeth ar draffig fel ym "mhroblem 1". Ni fyddai'r ffordd newydd yn cael ei chwblhau o fewn y raddfa amser hon.
	Angen mwy o lonydd.
	Mae angen gwell rheolaeth traffig ar draffig sy'n cael ei ddargyfeirio – lleihau'r defnydd o'r B4245, yn enwedig ar adegau prysur ac yn ystod y nos!
	Nid oes llwybr amgen digonol i dderbyn traffig wedi'i ddargyfeirio pan fo'r ffordd ar gau.
	? Nid yw'n glir ble mae'r gwaith cynnal a chadw, mae'r rhan rhwng Caerdydd – Casnewydd – Coldra wedi'i gwneud.
Dyffryn	
✓ (6)	Gwneud gwaith yn ystod y nos.
	Mae gwaith ffordd mawr yn achosi problem o hyd.
	Gwaith mewn cyfnodau a gwrthlif nawr bod 3 lôn yn cael eu defnyddio.
	Dewisiadau dargyfeirio cyfyngedig, gweithio dros nos.

Magwyr	
× (1)	Onid yw hyn yn digwydd ar bob traffordd?
Dyffryn	
× (2)	Nid os yw'n cael ei wneud yn ystod y nos, fel ar hyn o bryd.
	Pam nad yw wedi cael ei wneud nawr pan fo'r gwelliant 3 lôn wedi'i wneud.

Problem 6. Mae cerbydau nwyddau trwm yn ymdopi'n wael gyda thagfeydd am eu bod yn cymryd mwy o amser i ailgychwyn ar ôl iddynt stopio.	
Casnewydd	
✓ (4)	Mae ganddynt waith i'w wneud!
	Nid wyf yn credu y byddai gwahardd cerbydau nwyddau trwm yn ddewis realistig.
	Mae'r datganiad yn ffeithiol gywir – pam gofyn am sylwadau?
	Rwy'n cytuno â'r datganiad hwn. (uchod)
	? Ddim yn siŵr a yw hwn yn esgus dilys.
Llyswyry	
✓ (1)	Cyfyngiadau amser/cyfyngiadau lonydd ar gyfer cerbydau nwyddau trwm?
Magwyr	
✓ (9)	Cytuno a'r parcio oddi ar y stryd sy'n dilyn i gydymffurfio â gofynion gyrru cyfreithlon (oriau)
	Lorïau archfarchnadoedd – angen edrych ar y gwasanaeth/cynhwysyddion rheilffordd llwyddiannus rhwng Daventry – Glasgow – ymestyn i dde Cymru.
	Cyfyngu cerbydau nwyddau trwm i'r lôn fewnol ger twneli Brynglas.
	Mae cerbydau nwyddau trwm yn aml yn dilyn ceir sy'n rhedeg ar 50mya yn agos iawn

	Mae angen cyflenwadau arnom.
	Felly cadwch y traffig yn llifo!
	Cytuno, ac ni ddylid eu dargyfeirio drwy ardaloedd preswyl B4245!
	Trenau
	Cadw cerbydau nwyddau trwm i Lôn 1.
Dyffryn	
✓ (6)	Ydynt.
	Cytuno, gwahanu'r lôn fewnol dim ond mewn tywydd gwael.
	Rwy'n cytuno, ond mae angen cerbydau nwyddau trwm i ddosbarthu nwyddau.
	Gwastraff ynni mawr!
	Y brif broblem yw cyfyngiadau ar yr M4, mater bach yw'r cerbydau nwyddau trwm.

Casnewydd	
×	Mae'r datganiad hwn yn anghywir ac yn agored i'w herio gan y diwydiannau logisteg a chludo.
(2)	Ddim yn siŵr a yw mor syml â hynny.
Magwyr	
× (2)	Nid yw'n fater arwyddocaol.
	Anghytuno fod hon yn broblem benodol. Mae'r un fath ar bob traffordd.
Dyffryn	
× (2)	Ni ddylai fod tagfeydd ar y draffordd yn y lle cyntaf.
	Gormod o yrwyr yn goryrru.

Problem 7. Mae'r traffig sy'n symud yn araf mewn tagfeydd ar y draffordd o amgylch Casnewydd yn ychwanegu at broblemau llygredd aer.	
Casnewydd	
✓ (7)	Yr unig ffordd i'w ddatrys yw lleihau nifer y ceir/lorïau. Defnyddio trefn Parcio a Theithio i'r rheiny sydd eisiau mynd i ganol dinasoedd.
	Cytuno – byddai Ffordd Liniaru'r M4 yn datrys pethau!
	Cytuno.
	? Ond a yw hynny'n golygu mai adeiladu mwy o ofod ffyrdd yw'r ateb? Beth am awgrymu rhoi cynnig ar rywbeth arall?
Llyswyry	
✓ (2)	Faint o farwolaethau sydd wedi bod yng Nghasnewydd?
	Gerddi a rhandiroedd yn cael eu llygru – effeithiau ar fywyd gwyllt?
Magwyr	
✓ (21)	Mae arolygon yn dod i'r casgliad fod ein hardal ymhell o dan lefelau cyfartalog "Aer glân" x 2
	Ond bydd ffyrdd ychwanegol yn achosi llygredd aer hefyd.
	Mae angen datrys problem tagfeydd/cerbydau nwyddau trwm trwy Fagwyr (angen cyffordd M48) x 2
	Fel ciwio wrth dollau'r bont
	Yn bendant.
	Cytuno.
	? Ddim yn gwybod pa effaith fyddai'n ei chael ar ansawdd aer, os yw ceir yn symud yn gyflymach.
	Amheus: onid felly mae hi ar gyfer pob ffordd osgoi? (gan gyfeirio at yr uchod)
	Cytuno.
	Cytuno hefyd.
Dyffryn	
✓ (9)	Ydy.
	Cytuno.
	Dim ond gwaethygu all wneud.
	Nid yw'n rhywbeth caniataol ond mae'n bwysig beth bynnag.
	Dylai cyfyngiad cyflymder amrywiol helpu, ond mae'n debygol mai effaith gyfyngedig fydd.

Casnewydd	
× (1)	Felly'r cyfan fyddwch yn ei wneud yw ei roi'n agosach at drigolion fel y gwnaethoch gyda'r ffordd "lliniaru'r twnnel" (Nid Ffordd Liniaru Malpas oedd hi erioed – cawsom ein twyllo!)

Problem 8. Mae symudiad y traffig yn stopio ac yn ailgychwyn ar yr M4 yn arwain at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr na thraffig sy'n llifo'n ddirwystr.	
Casnewydd	
✓ (9)	Dyna'n union beth fydd yn digwydd ar yr SDR. Ar hyn o bryd mae'n bleser ei defnyddio ar adegau tawel (nid wy'n gyrru ar adegau prysur – rwy'n osgoi hynny).
Llyswyry	
✓ (1)	Yn bendant - tagfeydd = llygredd/$C0_2$.
Magwyr	
✓ (16)	Ydy.
	? Pa dystiolaeth sydd i ategu hyn?
	Ddim yn gwybod.
	Cytuno.
	Mae hefyd yn cynyddu risg damweiniau.
Dyffryn	

✓ (8)	Ydy.
	Cytuno ond dylid gwella 'r system 3 lôn.
	Eto, dim ond gwaethygu wnaiff hi.
	Mae gwastraffu tanwydd yn bwysig hefyd.
	Dylai cyfyngiad cyflymder amrywiol helpu, ond mae'n debygol mai effaith gyfyngedig fydd.

Problem 9. Mae'r system drafnidiaeth ffordd a rheilffordd o fewn coridor yr M4 ac o'i amgylch dan berygl o darfu oherwydd digwyddiadau tywydd eithaf (er enghraifft, llifogydd).	
Casnewydd	
✓ (5)	Buddsoddi mewn mwy o hydwythedd i'r rhwydwaith rheilffyrdd, e.e. cynhwysedd ar lwybrau dargyfeiriol.
	? Mwy nag unrhyw le arall?
	Effeithir mwy ar y ffordd mewn tywydd gwael, ond mae llifogydd yn dal i rwystro popeth.
	Ydy, ond mae'r un fath ym mhob man.
	Mae angen cynllunio ar gyfer y gaeaf! Graeanu/clirio eira.
	? Defnyddio rheilffyrdd mwy, yn enwedig i mewn/allan o Ddociau Casnewydd wrth lwytho/dadlwytho llongau. Cynlluniwch yn iawn i glirio eira, felly pan fyddwch yn cau twnnel yr M4 i ddadmer, bydd modd defnyddio'r ffyrdd eraill.
	Yna cynlluniwch ar gyfer digwyddiadau felly o flaen llaw.
Magwyr	
✓ (7)	Nid oes unrhyw system trafnidiaeth ffordd/rheilffordd – damwain hanesyddol ydyw.
	A oes tystiolaeth o hyn yn hanesyddol – nid wyf yn ymwybodol fod hyn yn broblem.
	Mae'n broblem sy'n gysylltiedig â'r rhan fwyaf o goridorau trafnidiaeth. Gallai llifogydd greu problemau yn y dyfodol i rai rhannau is.
	Does bosib fod y broblem uchod erioed wedi digwydd.
	Cefais fy nal mewn eira yn ddiweddar – roedd yr adroddiadau traffig yn ddiwerth.
	Gweir – unrhyw gynlluniau ar waith?
	Cytuno – Asiantaeth yr Amgylchedd wedi mapio'r rhannau yn las.
	Pa drafnidiaeth rheilffyrdd a ffyrdd – nid yw'n bodoli.
	Yn enwedig os oes llifogydd o'r morglawdd yn torri.
	Llai o risg i'r rheilffordd na'r ffordd, a llai agored i ddamweiniau.
	? Dim ond dwywaith yn y 30 mlynedd diwethaf y mae'r M4 wedi'i chau oherwydd y tywydd, ond mae Pontydd Hafren wedi bod ar gau o leiaf ddwywaith yn y flwyddyn ddiwethaf yn sgil rhew ar y cynalyddion.
	Nac ydy, fwy na thebyg. Dim problemau sylweddol, ers i ni symud i mewn 20 mlynedd yn ôl. Mae'r ffordd uwchlaw'r gorlifdir.
Dyffryn	
✓ (5)	Ydy, a thagfeydd traffig.
	Os yw'r tywydd yn y gaeaf yn parhau i waethygu.
	Ydy, ac yn sgil yr heddlu'n cau'r ffordd am oriau ar ôl digwyddiadau traffig.
	I raddau – mae llawer mwy o achosion o oedi.
	? Mae pob system ffyrdd a rheilffyrdd mewn perygl o ddioddef tarfu oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol. Nid yw hon yn broblem benodol i'r M4.
	Mae hyn yn eithaf generig.

Magwyr	
× (8)	Mae hyn yn digwydd ym mhobman ar adegau tywydd gwael.
	Pryd fu llifogydd ar yr M4?
	Dim ond yn Nhwnnel Hafren.
	Nid yw'n broblem.
Dyffryn	
× (2)	Ychydig iawn o darfu sy'n digwydd.

Problem 10. Mae sŵn traffig o'r draffordd yn broblem i drigolion lleol.	
Casnewydd	
✓ (1)	Ydy'n bendant ar Christchurch Hill.
	? Bydd sŵn traffig o ffordd amgen yn agos at fwy o drigolion. Bydd M4 "allan o'r ffordd" yn aflonyddu ar lai o bobl.
Magwyr	
✓ (14)	Ydy – a mygdarthau.
	Ydy x 2
	Rwy'n byw'n agos at yr M4, ac mae'n arbennig o swnllyd pan fydd y gwynt yn chwythu o gyfeiriad penodol.
	Ffensys ar hyd y draffordd – angen y rhain (x 3).
	Angen sgrinio gwell – dargyfeiriadau ar yr A48 nid y B4245.
	Sgrin traffordd gerllaw Langley Close.
	Mae'r sŵn ar y B4245 yn sgil traffig wedi'i ddargyfeirio yn broblem fawr.
	Pan fydd coed yn cael eu plannu fel bafflau sŵn gwyrdd, maent yn cael eu torri i lawr ymhen ychydig flynyddoedd. Felly does dim bafflau sŵn.
Dyffryn	
✓ (4)	Cytuno.
	? A fydd CEM yn arwain at lai o sŵn?

Casnewydd	
× (2)	Nac ydy, a dweud y gwir.
	Rwy'n byw ar Christchurch Road – nid ydym yn cael problemau oni bai eu bod yn gweithio ar yr M4 yn hwyr y nos.
Llyswyry	
×	Nac ydy, a dweud y gwir.
Dyffryn	
× (4)	Rhwystrau sŵn gyda sŵn cyfartalog.
	Nid yw'n broblem fawr iawn.
	Mae'n dibynnu pa mor agos ydych chi.

Problem 11. Nid yw nod LICC i greu porth gwell i mewn i Gymru yn cael ei fodloni ar hyn o bryd gan goridor yr M4.	
Casnewydd	
✓ (8)	Bydd porth gwell hefyd yn cynnwys trydanu'r rheilffordd o Lundain i Abertawe, a mwy o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus, gyda chyfleusterau parcio a theithio wrth gyffordd Twnnel Hafren a Llanwern
	Cytuno â'r ddau sylw uchod.
	Mae angen gwella porth y ffordd a'r rheilffordd.
	? Coridor yr M4 y tu hwnt i'w gynhwysedd yn llwyr.
	Cytuno – mae'n hysbyseb gwael.
	Mae'r sefyllfa bresennol yn atal rhywun rhag dod i mewn i Gymru.
	Nid yw'r dewisiadau amgen yn borth 'hysbysebu' ychwaith = yn enwedig y rheilffordd. Bydd trydanu'n dod i ben ym Mryste, yn ddiau. Cymru dan anfantais eto!
	Rhoi rhywbeth dramatig i mewn sy'n gwneud trigolion yn falch ohono ac sy'n gwneud buddsoddwyr yn debygol o fod eisiau aros yng Nghasnewydd.
Llyswyry	
✓ (1)	Edrychwch ar y traffyrdd i mewn i'r Alban - 3 lôn yn ddigyfyngiad. Croeso i Gymru - Twneli Brynglas!
Magwyr	
✓ (29)	Cytuno.

	Rhaid ei fod yn atal busnes/buddsoddi yn yr ardal.
	Byddai porth rheilffordd yn helpu (trefn Parcio a Theithio wrth gyffordd Twnnel Hafren)
	Adfer Gorsaf Magwyr.
	Nid yw'r anabl yn gallu defnyddio'r orsaf.
	Gorsaf ym Magwyr, os gwelwch yn dda.
	Mwy o welliannau i ffordd Blaenau'r Cymoedd.
	Mae'r doll yn gwneud pethau'n waeth.
	Dylid gwrthdroi'r system tollau – talu wrth fynd allan – dim tâl i ddod i mewn.
	Cytuno, angen cael gwared ar y tollau, trethu busnes yng Nghymru.
	Ond ni ddylai ddibynnu ar yr M4 yn unig.
	Cael gwared ar y tollau.
	Plannu mwy o gennin Pedr!
	Cytuno, ond twneli Brynglas sy'n creu'r tagfeydd, nid y traffyrdd yn arwain atynt ac oddi wrthynt. Rhaid i'r ateb osgoi'r twneli. Angen astudio ac adlinio'r ffyrdd i ffwrdd oddi wrth y bythod tollau er mwyn atal yr effaith trac rasio.
Dyffryn	
✓ (7)	Mwy o fysiau cyflym rhwng Casnewydd/Bryste.
	Mae angen seilwaith trafnidiaeth gwell o lawer arnom.
	Hollol wir!
	Graddfeydd prisio gwell ar gyfer gwasanaethau bysiau – efallai y bydd mwy o bobl yn eu defnyddio.
	Dim gyda nifer fawr o gylchfannau ar lwybrau amgen (SDR).
	Byddai llai o gyffyrdd ar y draffordd yn helpu lleihau defnyddwyr lleol.
	Lefelau tagfeydd, yn enwedig ar adegau prysur e.e. yn nhwneli Brynglas, nid yw'n groeso da i Gymru!
	Mae twneli Brynglas yn achosi problemau.

Magwyr	
× (1)	
Dyffryn	
× (2)	Mae'r gwasanaeth bysiau yn fwy na digonol, ac mae'r system reilffordd yn dda.
	Da.

Problem 12. Mae'r system drafnidiaeth bresennol yn cyfyngu ar yr hyn y gall Cynghorau ei wneud i ddatblygu'u hardaloedd.	
Casnewydd	
✓ (4)	Cytuno â'r sylw uchod (*gwasanaethau bysiau a threnau amlach a mwy dibynadwy)* ond LICC all wella'r rheilffordd, a'r Cyngor all wella'r gwasanaeth bysiau efallai.
	Yn sicr, ac mae angen cyswllt rheilffordd Glynebwy ar Gasnewydd.
	Dim ond pan fydd yr M4 yn cael ei datrys y gellir mynd i'r afael â phroblemau lleol.
	Mae angen i chi gipio SDR Casnewydd i ddatrys eich problemau – mynd â'ch problem chi i ffwrdd. Nid ydym yn ddinasyddion ail ddosbarth i Gaerdydd!
Llyswyry	
Magwyr	
✓ (20)	Cytuno – nid yw'n hysbyseb gwych i annog busnesau newydd.
	Cyffordd ar yr M48 ger Cil-y-coed yn Hanfodol x 2
	Cyffordd ar y B4245 yn Rogiet.
	Mwy o rym i'r bobl, h.y. nid oes digon o rym gan gynghorau mewn perthynas â materion trafnidiaeth. Mae llywodraeth y DU yn goruwchreoli.
	Ie, rheoleiddio gwasanaethau bysiau masnachol.
	Mae'n cyfyngu ar ddatblygiad/atal yn llwyr.
	Stopio datblygiad pellach tan fod y seilwaith yn gwella.
	? Pa dystiolaeth sydd ar gyfer y datganiad hwn?

Dyffryn	
✓ (4)	Cysylltiadau rheilffordd gwell.
	Gellid gwella llawer, mae'n rhaid i'r Cyngor weithio gyda systemau hen-ffasiwn/wedi'u gorddefnyddio.
	Ydy.
	? Mae'n gymwys i lawer o'r rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru. Nid yw'n benodol i'r M4.

Casnewydd	
× (2)	Mae angen gwasanaethau bysiau a threnau amlach a mwy dibynadwy arnom.
Dyffryn	
× (2)	

Problem 13. Mae'r cyfraddau damweiniau presennol ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer traffyrdd y DU	
Casnewydd	
✓ (1)	? A yw hynny'n gymhariaeth ddilys?
	? Ai am ei bod uwchlaw'r lefel tagfeydd y mae hyn yn wir?
	? Ni fyddai'n fy synnu mai'r tagfeydd sydd i gyfrif am hynny.
	? Gan ragdybio ei fod yn wir, mae angen gwelliannau.
	"Gyrru gwael a throseddau gyrru yw'r rheswm am hynny. Dylid cael gwared ar yrwyr heb yswiriant a/neu heb drwydded oddi ar y ffordd. Gallai'r cyfyngiad cyflymder amrywiol helpu gyda hyn.
	? A yw hyn yn ymwneud mwy â gyrwyr na'r ffyrdd?
Llyswyry	
✓ (1)	Nid traffordd yw'r ffordd hon….
Magwyr	
✓ (8)	Mwy o gyfyngiadau lonydd ar gerbydau nwyddau trwm – y nhw sy'n achosi'r rhan fwyaf o ddamweiniau.
	Ond pa fath o ddamweiniau ydyn nhw?
	Cyffyrdd, llwybr troellog, stopio-cychwyn.
	Pobl – yn gwthio oherwydd oedi yn sgil tagfeydd.
	Mae cyfyngiad 50mya yn helpu – gall hyn fod yn beryglus, gan nad yw'r rheiny sy'n newid lôn i droi i ffwrdd yn gallu addasu cyflymder am fod pawb yn gwneud 50.
	Bydd cyfyngiadau cyflymder amrywiol yn helpu.
	Prawf? Onid yw'r M25 a'r M6 yn waeth o lawer?
	Peidiwch â chredu hyn – pa dystiolaeth sydd? Mae'r cyfyngiad 50mya yn ffactor cyfrannol.
	Mae'r datganiad hwn yn ddiwerth heb gymhwyster.
	Rheolaeth traffig eto.
	? A yw hyn yn wir – nid wyf wedi gweld unrhyw ffigurau wedi'u cyhoeddi.
	? Nid wyf wedi gweld y ffigurau – ydyn nhw'n rhai tebyg am debyg – marwolaethau? Anaf? Difrod yn unig? Gweithgarwch troseddol? (x 2)
	? Niferoedd, os gwelwch yn dda.
	Mae'r M4 wedi bod yn is na'r safon erioed o ran aliniad, graddiant a lleiniau caled.
	A yw hyn yn wir?
	? Onid yw'r 50mya o amgylch Casnewydd wedi lleihau'r ffigur hwn? Gofynnwch i'r heddlu..
Dyffryn	
✓ (3)	Beth yw'r ganran?
	Ydy.
	Ai ers cael 3 lôn ar yr M4?
	Problem fwy yw'r heddlu'n cau'r M4 ar ôl damweiniau mawr am oriau lawer.**
	Ystadegau, os gwelwch yn dda.

Casnewydd	
× (1)	Mae'n dal yn well na chyfraddau ffyrdd lleol."
Dyffryn	
× (3)	Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth fod hyn yn wir.**
	Mae safonau gyrru yn wael iawn, ac yn achosi damweiniau.
	Lorïau tramor.

Problem 14. Mae'r problemau presennol ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn cael effaith ganlyniadol sylweddol ar adegau, ac mae'n tarfu'n ddifrifol ar deithio yn Ne Cymru.	
Casnewydd	
✓ (8)	Ond mae hefyd yn wir am lawer o rannau eraill o'r draffordd.
	Angen mwy o wydnwch.
	Fel a ddangosir pan yrrodd llanc i fyny'r draffordd y ffordd anghywir, gan gau De Cymru am y diwrnod.
	Ydyn, ac nid yn ystod adegau prysur yn unig. Mae hefyd yn wir adeg penwythnosau gwyliau a thymor Rygbi'r Chwe Gwlad.
	Cytuno
	Bydd prynhawn Chwefror 4 yn anhrefn llwyr. Roedd hi felly adeg gêm Ffrainc gyda'r nos y llynedd.
	Dylid gwahardd gemau rygbi ar nos Wener yn Stadiwm y Mileniwm oni bai bod bysiau a threnau'n addo rhedeg i bob ardal mor hwyr â hynny! Mae ceisio mynd yn y car yn wirion.
	Nid yr SDR yw'r ateb, yn enwedig am fod y gwaith cynnal a chadw/clirio eira yn ddiffygiol iawn.
Llyswyry	
✓ (1)	Yn bendant.
Magwyr	
✓ (18)	Cytuno.
	Mae cau'r ffordd yn arwain at effeithiau canlyniadol difrodus.
	Mae angen mwy o lonydd.
	Byddai gwell mynediad/allanfa ar ffyrdd ymuno/ymadael yn helpu
	Cytuno, ond (eto) effaith Brynglas yw hynny.
	Ceisiwch yrru heibio i Reading yn y bore neu ar yr M32 i Fryste gyda'r nos!
	Edrychwch ar yr M25.
Dyffryn	
✓ (8)	Ydyn.
	Cytuno'n gryf.
	Mae hon yn broblem enfawr.
	Ydyn!
	Mae tagfeydd wrth y twneli.

Dyffryn	
× (1)	

Unrhyw broblemau ychwanegol yma.

Casnewydd

- Beth am i) bysiau hirdeithiog rhwng Bryste a Chaerdydd fel gwasanaethau Greyhound Abertawe - Caerdydd? ii) Archwilio'r potensial ar gyfer tramiau/rheilffordd ysgafn rhwng cyffordd Twnnel Hafren a Chaerdydd?
- Sefydlu cyswllt o'r M48/B4245at gyffordd Twnnel Hafren a threfnu system Parcio a Theithio gyda maes parcio mawr.
- Gallai trefn Parcio a Theithio fod yn graith ofnadwy ar gefn gwlad ac yn gyfleuster anghyfleus; byddai llawer yn ei anwybyddu fel ag ar hyn o bryd!
- Agwedd ddof. Ry'n ni'n gwybod beth yw'r problemau - ewch ati i'w datrys!
- Dylai traffyrdd fod ar gyfer traffig sy'n teithio pellterau hwy. Gwaharddwch gysylltiadau lleol.
- Peidiwch â gwahardd cysylltiadau lleol. Fyddwn ni ddim yn gallu cyrraedd cyrchfannau o adref, bydd hyn yn gwneud problemau Casnewydd hyd yn oed yn waeth. Nid yw trafnidiaeth gyhoeddus (bysiau - dim rheilffordd) yn gwasanaethu'r llwybr o'r cartref i'r gwaith heb fynd milltiroedd allan o'r ffordd a chynyddu'r pellter bedair gwaith, a 6 x gwaith o leiaf, efallai 8 - 10 gwaith hyd yn oed.
- Mae'r M4 yn cael ei defnyddio gormod fel llwybr brys rhwng cyffyrdd yn hytrach na siwrneiau hir – dylai fod arwyddion da i ddangos llwybrau amgen.

Llyswyry

- Er fy mod wedi bod yn gyrru am flynyddoedd lawer, nid wyf yn gyrru ar y draffordd – rwy'n ofnus.
- Byddaf yn osgoi rhai cylchfannau yng Nghasnewydd – ddim yn hoffi Nash Road.

Magwyr

- Gall Chwarel Ifton ailagor gyda rhybudd 48 awr.
- Byddai cyffordd i'r M48 i wasanaethu ardal Magwyr/Gwndy/Rogiet/Cil-y-coed yn lleihau tagfeydd.
- Wrth fynd ar yr M4 ym Magwyr, nid oes unrhyw arwydd i ddweud wrthych os oes damwain wedi digwydd.
- Gwir – rydych chi'n cael eich dal ar yr M4 yn lle troi o amgylch cylchfan 23A.
- Disgyblaeth ar lonydd, pobl yn meddiannu'r lôn ganol!
- Diffyg cyffordd ar yr M48.
- Mae'r uchod i gyd yn berthnasol.
- Mae'r gyffordd ar yr M48 yn hanfodol – byddai mwy o wybodaeth matrics wrth Gyffordd 23A yn beth da.
- Does dim digon o ddewisiadau amgen (e.e. bysiau, bysiau hirdeithiog, rheilffyrdd) yn cael eu hyrwyddo.
- Cytuno.
- Mae angen i LICC ailedrych ar eu cynlluniau (llawer ohonyn) ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy – drwy SEWTA, gallai gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus wneud gwahaniaethu o ran lleihau dibyniaeth ar y ffordd.
- Gostwng tollau ar y pontydd.
- Gwasanaeth trenau ofnadwy – mae angen gwella mawr.
- Twneli Brynglas – tagfeydd traffig yn ystod cyfnodau pan fo fwy o draffig. Hefyd, am ryw reswm, mae gyrwyr yn arafu wrth ddynesu at y twneli!
- Mae pobl yn defnyddio'u fersiwn eu hunain o'r drefn Parcio a Theithio – drwy adael ceir wrth Gyffordd 23 a Chyffyrdd 24/8, yna rhannu ceir o hynny ymlaen ar y draffordd.
- Gwella trenau wrth STJ.
- Darparu mwy (rhywfaint!) o gyfleuster Parcio a Theithio, a chyfleuster Parcio a Theithio wrth Gyffyrdd 23A a 28 (dyweder).
- Ffyrdd lleol annigonol yng Nghasnewydd ac o gwmpas Casnewydd.
- Gwella'r gwasanaeth bysiau lleol. Ar hyn o bryd does dim bws o Fagwyr i Gasnewydd rhwng 8.20am – 9.20am. Felly mae angen defnyddio'r car. Nid yw bysiau lleol yn cysylltu â'r orsaf leol ar amser synhwyrol, naill ai Twnnel Hafren neu Gasnewydd – gorfod cerdded o'r orsaf fysiau, mae'n anodd i'r henoed, ac ati.

Dyffryn

- Os bydd y cyfyngiad cyflymder amrywiol yn mynd o 50 i 70 bydd hyn yn hwyluso'r llif. 50mya ydyw ar hyn o bryd, ac mae confois peryglus 3 lôn.
- Dylech ganiatáu cyflymderau gwahanol yn y lonydd.
- Gall Cyffordd 28 fod yn hunllef yn y bore a'r adeg brysur gyda'r nos.
- Mae cyfyngiadau cyflymder amrywiol yn helpu o un cyflymder i'r llall.
- Mae Cyffordd 28 yn llawer rhy brysur ar adegau prysur, ac mae hynny'n gwneud mynediad yn anodd, hefyd nid oes modd mynd at gylchfan Pont Ebwy o Ddyffryn ar yr adegau hyn oherwydd diffyg goleuadau traffig ar yr un gyffordd hon.
- Traffig gwrthlif Cyffordd 24 a Chyffordd 28 wnaeth achosi'r rhan fwyaf o'r problemau, am ei bod hi'n anodd osgoi'r ddwy gyffordd.
- Mae pobl sy'n gyrru'n rhy araf o gymharu â thraffig arall yn achosi "rhwystr treigl ar y ffordd", gan achosi rhwystredigaeth a damweiniau.

5. Cyrchnodau y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn ceisio'u cyflawni

Gofynnwyd i'r rheiny a fynychodd yr arddangosfa ystyried y cyrchnodau y cred Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylid eu cyflawni, a nodi eu barn drwy:

- ✓ *roi tic wrth y problemau a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y maent yn cytuno y mae angen mynd i'r afael â nhw, neu*
- × *roi croes yn erbyn unrhyw rai nad ydynt yn ystyried eu bod yn broblemau, ac*

✍ *ychwanegu unrhyw sylwadau esboniadol – pam mae'r cyfranogwr yn cytuno neu'n anghytuno â'r hyn a ddywedir, neu drwy awgrymu newid i'r broblem a nodwyd*

✍ *Ar ddiwedd yr adran, gwahoddwyd cyfranogwyr i ddweud wrthym pa broblemau ychwanegol ddylid mynd i'r afael â nhw yn Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4*

Mae'r tablau yn yr adrannau canlynol yn cofnodi'n llawn ymatebion cyfranogwyr i bob cyrchnod a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym wedi grwpio ynghyd y sylwadau lle nododd yr awdur ei gytundeb / chytundeb â thic, neu groes i fynegi nad oedd o'r farn fod y broblem yn bodoli, nad ydynt yn wynebu'r broblem, neu os ydynt yn meddwl bod y broblem yn wahanol i'r hyn a fynegwyd.

Mae nifer y ticiau neu groesau yn cyfeirio at gyfanswm nifer y ticiau neu groesau a ddyfarnwyd gan gyfranogwyr ym mhob lleoliad mewn perthynas â'r broblem a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r sgorau negyddol (croesau) braidd yn gamarweiniol gan fod nifer o'r sylwadau yn ymhlygu bod y cyfranogwr wedi bwriadu nodi'r gwrthwyneb.

Cyrchnod 1. Ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach teithio o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn Ne Cymru.	
Casnewydd	
✓ (9)	Ond peidiwch ag esgeuluso llwybrau i/o Gaerloyw a Chanolbarth Lloegr
	Pwysig iawn.
	Ie, cytuno'n llwyr.
	Cynnwys yr A465 yn ogystal â choridor yr M4 ac ailgysylltu â Gorllewin Cymru (A40)
Llyswyry	
✓ (2)	Yn bendant.
	Ie, "rhaid" gwneud hynny.
Magwyr	
✓ (20)	Gwella ansawdd bywyd i bob busnes/hamdden.
	Rheilffordd! Cytuno
	Poblogaeth Magwyr ≈ 9000 a dim cyswllt rheilffordd - chwerthinllyd
	Mae prif reilffordd 4 trac o gyffordd Twnnel Hafren i Gaerdydd - mae'r cynhwysedd yno, angen meddwl blaengar a chlir.
	Ac i gael mynediad i farchnadoedd busnes yn Lloegr.
	Byddai'r ffordd newydd yn helpu cyflawni hyn.
	Mae Twnnel Brynglas yn achosi atalfeydd.
	Mae angen ystyried traffyrdd a ffyrdd B cyfagos.
	Caewch gyffyrdd 27 a 26.
	Achosir y brif broblem gan Dwneli Brynglas.
Dyffryn	
✓ (8)	Dylid cael ffordd rhwng Celtic Springs (LG) a chylchfan Tŷ-du fel bod yr holl draffig o Gaerdydd yn gallu osgoi Cyffordd 28 a mynd i Gwm Rhymni, Cwm Sirhywi, Glynebwy a Phont-y-pŵl hyd yn oed.
	Angen gwella cylchfan cyffordd 28 – mae'n rhy fach i faint o draffig sydd yno.
	Y "berthynas dlawd" fu Cymru erioed.
	Ond rhaid rhoi ystyriaeth ddwys i lifoedd traffig y Gogledd/Gorllewin, hefyd.
	Lleihau mynediad ochr i'r draffordd.

	Gwario llai i gyflawni mwy.

Casnewydd	
× (2)	Efallai y bydd yn allforio swyddi i ardal Bryste
	Mae angen i deithio fod yn ddibynadwy yn hytrach na'n gyflymach neu'n haws. Bydd pobl yn treulio'r un faint o amser yn teithio, ond os yw'n gyflymach byddant yn teithio ymhellach. A yw hynny'n dda i'r amgylchedd neu'r economi leol?
Magwyr	
× (2)	A oes problem?
Dyffryn	
× (1)	

Sylwadau siartiau troi am gyrchnodau
Holl sylwadau'r Arddangosfeydd galw heibio wedi'u crynhoi

Cyrchnod 2 . Gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth i Loegr, Gweriniaeth Iwerddon a gweddill Ewrop ac ati	
Casnewydd	
✓ (10)	A hefyd cysylltiadau gwell â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.
	Rôl bwysig i wasanaethau bysiau a bysiau hirdeithiog fel Traws Cambria.
	Yn bwysig nid yn unig gan gyfeirio at Eurostar, ond mae Maes Awyr Casnewydd Glannau Hafren [Severnside Airport Newport] yn ganolfan ddelfrydol i lwybrau.
	Mae gwella mynediad yn creu twf economaidd.
	Ystyriwch bob dull – rheilffordd, awyr a'r ffordd.
	Cynhwyswch fysiau Lloegr ar ein pasiau ni. Gallem adael y car adref yn amlach, neu beidio â'i ddefnyddio ar ôl i ni gyrraedd ein cyrchfan.
Llyswyry	
✓ (2)	Yn bendant.
	Wel ie gan y bydd mwy o ymwelwyr yn dod i Gymru.
Magwyr	
✓ (13)	Meddyliwch am reilffyrdd – mae'r cysylltiadau gennym.
	Peidied â chamu ymlaen gormod – mater lleol yw hwn – M4 Magwyr i Gas-bach.
	Llwybr Traws Ewrop – cael cyllid gan yr UE.
	Mae angen hyn os yw Cymru i gael cyfle busnes.
	Cytuno bod hwn yn Llwybr Traws Ewrop (E30). Pam ddylwn ni dalu amdano a dioddef anghyfleustra?
Dyffryn	
✓ (7)	Bu angen seilwaith gwell ar Gymru ers dros 20 mlynedd.
	Byddai gwahanu oddi wrth draffig lleol yn helpu.
	Gwnewch y draffordd y ffordd osgoi nid yn ffordd ddosbarthu.
	Angen llai o darfu yn ystod gwaith – llai o gostau.

Casnewydd	
× (1)	
Magwyr	
× (2)	Felly dim ond llwybr drwodd at Iwerddon yw Cymru – dim unrhyw fudd economaidd i Gymru. Os yw Lloegr/Iwerddon eisiau cysylltedd gwell, gadewch iddyn nhw dalu amdano.
	Na.

Cyrchnod 3. Hyrwyddo defnydd mwy effeithiol o ddewisiadau amgen i'r M4, gan gynnwys rhannau eraill o'r rhwydwaith trafnidiaeth a dulliau trafnidiaeth eraill ar gyfer siwrneiau lleol o amgylch Casnewydd	
Casnewydd	
✓ (15)	3 tic – rheilffordd, bysiau a bysiau hirdeithiog, a rheilffordd ysgafn/tramiau – dylent i gyd fod ar gael.
	Gallai bysiau hirdeithiog, bysiau a rheilffordd gludo teithwyr.
	Bydd hyn yn helpu.
	Cytuno.
	? Ond yn cydnabod ei bod hi'n well gan bobl deithio ar y ffordd.
	Lleihau mynediad cyffyrdd.
	Pasiau integredig i bobl anabl a'r rhai dros 60 oed ar drenau/bysiau. Trafnidiaeth gwbl integredig yng ngorsaf Casnewydd – pob bws i ollwng/codi wrth yr orsaf bob amser.
	Cynyddu'r dewis o fysiau rhwng cyffyrdd a chael arosfannau yn integreiddio â llwybrau rheolaidd yng Nghasnewydd/o amgylch Casnewydd.
	Bysiau, trenau, cerdded neu feicio – neu dim ond cynllunio i wneud pethau mewn ffordd wahanol er mwyn lleihau'r angen i deithio mewn car.
	Ond mae angen teithio cydgysylltiedig, h.y. trên i fws heb gerdded milltiroedd rhyngddynt.
	Cytuno.
Llyswyry	
✓ (1)	Trydanu'r rheilffordd a gwella gwasanaethau cysylltiadau'r cymoedd – gwell gwasanaeth bysiau.
Magwyr	
✓ (21)	Pa ddewisiadau amgen?
	Awgrymwch lwybrau amgen drwy fyrddau matrics, rhowch amcangyfrif o amserau siwrneiau.
	Trafnidiaeth gyhoeddus ratach.
	Does dim dewisiadau amgen heblaw am arch briffordd, ddigyfyngiad
	Trafnidiaeth gyhoeddus
	Agorwch yr orsaf
	Rheilffordd – Bryste yw'r ganolfan gyflogaeth (meddyliwch yn eang)!
	Does bosib y gall rhywun mewn awdurdod weld y patrwm yma – Rheilffordd/gwneud mwy o ddefnydd o'r cynhwysedd ar y rheilffordd – trenau amlach ond law yn llaw â gwelliannau ffordd/gwasanaethau bysiau/integreiddio, ac ati.
	Mae trydanu'r rheilffordd yn hanfodol i hybu busnes lleol.
	Gorsaf ym Magwyr.
	Buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus.
	Gwell gwasanaeth rheilffordd – mwy o drenau lleol.
	Parcffordd mawr wrth gyffordd Twnnel Hafren gyda ffordd gyswllt i'r M48 (x 2)
	Parcffordd wrth STJ, cymhorthdal i daliadau trenau, Parcio a Theithio.
	Cytuno â phob un o'r uchod.
	Gwella STJ a'r llwybr drwy Corus – cyffordd M48 yng Nghil-y-coed.
	Uwchraddio ffordd y gwaith dur i ffordd ddeuol 3 lôn.
	Cytuno. Defnyddio ffordd y gwaith dur a Spytty Road i osgoi twneli Bryn Glas.
	Nid yw'n cydweddu â Chyrchnod 1.
	Gwella'r gwasanaeth bysiau.
Dyffryn	
✓ (7)	Yn sicr dylai llwybrau dosbarthu lleol gael eu gwella.
	Yn unol â manylion Cyrchnod un.
	Ie, ond sut? Mae ffyrdd lleol eraill eisoes yn orlawn.
	* Byddai cau cyffyrdd y draffordd o amgylch Casnewydd ac eithrio Cyffordd 24 Coldra, Heol Malpas a Chyffordd 28 Tredegar yn lleihau defnydd traffig neu'r M4 at ddefnydd lleol
	Cytuno â'r uchod. Mynediad yn unig – dim gadael – rhan amser?

Casnewydd	
× (1)	Lleihau mynediad cyffyrdd.

Cyrchnod 4. Gwneud y defnydd gorau posibl o'r M4 bresennol a'r rhwydwaith ffyrdd lleol.	
Casnewydd	
✓ (7)	Gyda darpariaeth lawn ar gyfer cerbydau nwyddau trwm.
	Ewch i'r afael â phroblem cymudo teithio byr ar yr M4.
	Ie, ond byddwch yn ofalus i beidio â gwneud ffyrdd lleol ar gyfer traffig trwodd.
	Wrth gwrs! Ond mae angen ffordd liniaru o hyd.
	Ie.
	Yn amlwg – ewch ati felly!
	? Ond gwaharddwch lorïau trwm mewn ardaloedd preswyl a llwybrau trwodd. Pam mae cerbydau trwm iawn yn dal wedi'u gwahardd ar yr M4? Pam eu gorfodi ar ein ffyrdd lleol! Gwnewch bethau'n iawn!
	Caewch rai slipffyrdd. Pam mae angen gormod o gyffyrdd ar yr M4 ar Gasnewydd?
Magwyr	
✓ (31)	Mae angen mwy o welliant.
	Mae angen cyffordd M48.
	Mae angen cyffordd M48 ar gyfer Cil-y-coed.
	Nid oes unrhyw rwydwaith ffyrdd cydgysylltiedig.
	M48
	Angen cyffordd M48 i'r dwyrain o Fagwyr
	Gallai cyswllt rhwng y B4245 a'r M48 rhwng Cil-y-coed a Rogiet fod yn ffordd osgoi Magwyr (x 2)
	Nid yw'r ffyrdd presennol yn gallu ymdopi – angen ffordd osgoi.
	Cyffordd M48 ar gyfer Cil-y-coed.
	Angen cyffordd M48 ar gyfer Cil-y-coed ers tro byd!
	Ni allwn gytuno mwy!
	Cyffordd M48 yn Rogiet – byddai'n lliniaru pethau wrth Gyffordd 22 a Chyffordd 23A.
	Byddai cyffordd i'r M48 o gwmpas Crug yn gwasanaethu'r holl gymudwyr yn yr ardal yn y ddau gyfeiriad.
	Tollau pontydd is (h.y. mae'r tollau'n rhy uchel).
	Nid yw'n iawn talu i ddod i mewn i Gymru.
	Dylid lleihau'r broblem fawr o ran lefel uchel tollau croesi'r M4 cyn gynted â phosibl.
	Angen trafnidiaeth gyhoeddus well a rhatach, ac amlach.
	Dylech ddileu tollau'r bont.
Dyffryn	
✓ (7)	Ceisiwch wella ymwybyddiaeth pobl o'r rheswm pam.
	Ie, ond mae angen llawer o waith.
	Fel y cwestiwn uchod*
	Gweler Cyrchnod 3.

Magwyr	
× (1)	

Cyrchnod 5. Gwneud amserau siwrneiau ar hyd coridor yr M4 yn fwy dibynadwy

Sylwadau siartiau troi am gyrchnodau
Holl sylwadau'r Arddangosfeydd galw heibio wedi'u crynhoi

Casnewydd	
✓ (8)	Yn arbennig o bwysig i fysiau a bysiau hirdeithiog, e.e. X30 ac ar gyfer cerbydau newyddau trwm.
	Anodd gyda'r cyfleusterau presennol.
	Cyfuniad o wella a rheoli.
	Wrth gwrs!
	Anogwch gyflogwyr lleol i gynnig trefniadau gweithio mwy hyblyg fel y gall pobl amrywio'u hamserau teithio i'r gwaith/o'r gwaith. Gallai ysgolion fod yn fwy hyblyg hefyd, os oes modd.
Magwyr	
✓ (20)	Arhosfan rheilffordd ar gyfer Magwyr/Gwndy - ie.
	Dylid cael trefn ar y cyfyngiad cyflymder nawr!
	Gwell arwyddion am broblemau cyn mynd ar y draffordd, er mwyn gallu dewis llwybr amgen.
	Mae hyn yn amlwg, mae'n rhaid ei fod yn un o'r gwirebau ar gyfer yr ymgynghoriad.
	Arwyddion matrics. Rhannu ceir.
	Meysydd parcio i'r rhai sy'n rhannu ceir.
	Dylid ond cymhwyso'r cyfyngiad cyflymder o 50mya ar rannau cul/peryglus – cadwch y rhan 50 cyn lleied ag y bo modd.
Dyffryn	
✓ (6)	Trwy gynyddu'r cyflymder amrywiol 50/60/70mya.
	Meddwl eu bod wedi gwella.
	Ddim yn siŵr a yw cyflymder amrywiol yn gweithio. Dylai'r cyfyngiad cenedlaethol fod yn gymwys oni bai bod problem.
	Prif flaenoriaeth.

Cyrchnod 6. Cynyddu lefel y dewis i bawb sy'n teithio ar hyd y coridor trafnidiaeth rhwng Magwyr a Chas-bach	
Casnewydd	
✓ (10)	Tri thic, mae'r rheilffordd, bysiau a bysiau hirdeithiog, a rheilffordd ysgafn/tramiau yn ddewisiadau posibl.
	Cytuno â'r uchod!
	Syniad da, ond a fyddan nhw'n ei ddefnyddio!
	Ond peidiwch â goramcangyfrif y dymuniad am ddewisiadau heblaw am ffyrdd.
	Ail-lwybro bysiau er mwyn sicrhau nad y car yw'r unig ddewis synhwyrol, a'u rhedeg yn rheolaidd, a gyda'r nos.
	Angen mwy o gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, a chysylltiadau gwell.
Magwyr	
✓ (16)	Bysiau a'r rheilffordd.
	Angen gorsaf drenau/Parcio a Theithio ym Magwyr
	Gwella'r gwasanaeth bysiau a ddefnyddir gan y cyhoeddus – ond sut?
	Beth am drenau yn ogystal â bysiau. Ie!
	Cadwch gerbydau nwyddau trwm i Lôn 1.
Dyffryn	
✓ (7)	Digon o ddewis gyda bws X.
	Bydd cyrchnod un yn cael gwared ar draffig oddi ar yr M4.
	Gwella'r cysylltiadau rheilffordd.
	Nod da, ond sut?
	Cytuno.

Magwyr

Sylwadau siartiau troi am gyrchnodau
Holl sylwadau'r Arddangosfeydd galw heibio wedi'u crynhoi

× (1)	Dylai'r nod fod i leihau'r defnydd o isffyrdd a gwneud yr M4 yn llwybr dewis.
Dyffryn	
× (1)	

Cyrchnod 7. Ei gwneud hi'n haws i bobl allu defnyddio gwasanaethau allweddol, yn ogystal â chanolfannau preswyl a chanolfannau masnachol	
Casnewydd	
✓ (10)	A mynediad i ganolfannau trafnidiaeth, e.e. gorsafoedd rheilffordd, "Parcio a Theithio", gwasanaethau trafforddd (i fysiau a bysiau hirdeithiog fel National Express, First Greyhound a Traws Cymru).
	Pwysig – yn enwedig os yw'r Swyddfa Basbort yn aros yng Nghasnewydd.
	Peidiwch â rhoi gwasanaethau allweddol "allan o'r dref".
	Cynllunio defnydd tir, rheoli datblygu, cadw at gynlluniau ac oriau agor hwy ar gyfer gwasanaethau.
	Angen rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus gwell.
Magwyr	
✓ (13)	Gwella mynediad i'r M4/M48 o Gil-y-coed (angen cyffordd i'r drafforddd).
	Mwy o barcio a theithio, a bysiau/trenau.
	Cyffordd M48 ar gyfer Cil-y-coed.
	Cytuno – yn Rogiet.
	Mae'r broblem yn ymwneud mwy ag argyhoeddi pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus na'i darparu. I rywun ym Magwyr i bicio'n sydyn i Gasnewydd, nid trafnidiaeth gyhoeddus yw'r ateb (eto).
Dyffryn	
✓ (7)	Bydd cyrchnod un yn galluogi cerbydau argyfwng i osgoi'r M4 pan fydd wedi blocio. Mae'n bwysig gydag ysbyty critigol newydd i'w hadeiladu yn Llanfrechfa (Mae'r WDA eisoes yn berchen y tir ac mae'r cynlluniau ar gyfnod datblygedig).
	Dylai'r ysbyty newydd gael ei adeiladu ar ochr Whiteheads, Casnewydd, nid Llanfrechfa.
	Mae'n rhy bell allan o'r dre (dylai fod yn ysbyty gofal critigol).
	Nod da, ond eto, sut?
	Heb ddefnyddio'r drafforddd.
	Gwella gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus; creu "system drafnidiaeth integredig".
	Cytuno â system drafnidiaeth integredig.

Magwyr	
× (1)	Anghytuno – mae gormod o gyffyrdd ar yr M4.
Dyffryn	
× (1)	Ddim ar gyfer traffig lleol ar yr M4 gydag ymuno/ymadael wrth yr allanfa nesaf.

Cyrchnod 8. Gwella diogelwch ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.	
Casnewydd	
✓ (9)	Pwysig iawn.
	Cytuno
	? Dylai'r cyfyngiad cyflymder amrywiol newydd helpu plismona!
	Ie, trwy hyfforddi gyrwyr nid drwy waith adeiladu. Mae mwyafrif y gwrthdrawiadau'n digwydd o ganlyniad i gamgymeriad gyrwyr – mae cyflymder yn gwneud y trawiad yn waeth.
Magwyr	
✓ (15)	Dylai camerâu cyflymder fod yn gweithio drwy'r amser.
	Mwy o effaith drwy fonitro traffig.
	…….. dynion, tryciau a lorïau ar gyfyngiadau amser.
	Ceisiwch osod conau ar rannau byr o'r draffordd pan fydd gwaith ar y ffordd.
	Caniatáu hyd at 70mya ar yr M4 ar adegau tawelach.
	Gwell rheolaeth traffig (x 3)
	Angen gorfodaeth ar draffig - rheoli lonydd cyn cyffyrdd, cyffyrdd ochr chwith ar gyfer traffig yn mynd i ffwrdd yn unig - e.e. wrth droi am Gwmbrân a lôn ychwanegol.
	Ble mae'r lleiniau caled?
Dyffryn	
✓ (6)	Ymddengys bod llai o broblemau ers cael 3 lôn a 50mya. Anghyfleustra, ond mae'n werth chweil.
	O blaid diogelwch yn llwyr, ond gall cyfyngiad cyflymder 50mya achosi problemau mwy (cythraul gyrru).
	Gwahanu traffig lleol a thraffig trwodd yw'r ffordd orau o wella diogelwch.

Magwyr	
× (1)	A oes problem fawr?

Cyrchnod 9. Gwella ansawdd yr aer mewn ardaloedd nesaf at yr M4 o amgylch Casnewydd	
Casnewydd	
✓ (10)	Y ffordd orau o wneud hyn yw cael traffordd newydd ar y Gwastadeddau.
	Cael gyrwyr ceir i ddewis peidio â theithio.
Llyswyry	
✓ (1)	Mae'n ofynnol am resymau iechyd/amgylcheddol.
Magwyr	
✓ (11)	Sut? Nid yw Cas-gwent yn gallu'i wneud – pam nad yw LICC yn gallu'i wneud?
	Ddim yn gallu gweld sut, serch hynny
	Cytuno – sgrinio – llystyfiant? *X 2*
	..a dewis amgen rheilffordd.
	Ddim yn gwybod sut? Cerbydau trydan hefyd; rhy ddrud
	Yn amlwg byddai traffig sy'n llifo'n ddirwystr yn helpu.
	Atal teithio fyddai'r unig ffordd.
	Sut ydych chi'n cynnal prawf ar ansawdd aer, a sut ydych chi'n ei wella
	Atal pob car, lori, ac ati!
Dyffryn	
✓ (6)	Blaenoriaeth uchel oherwydd iechyd pobl (byddai'n costio mwy i'r GIG yn yr hirdymor).
	Byddai hynny'n braf!
	Credaf y dylid mynd i'r afael â phethau mwy yn uwch i fyny'r rhestr yn gyntaf.

	Braf petaem yn gallu gwneud hynny.

Dyffryn	
× (1)	Blaenoriaeth isel iawn.

Cyrchnod 10. Lleihau'r aflonyddwch i bobl yn sgil lefelau sŵn uchel, o draffig yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach	
Casnewydd	
✓ (6)	Y ffordd orau o wneud hyn yw cael trafforddd newydd ar y Gwastadeddau
Llyswyry	
✓ (1)	Arwyneb gwell i'r ffordd.
Magwyr	
✓ (14)	Archwiliwch systemau sy'n cael eu defnyddio yn Ewrop.
	Ffensio'r draffordd x 2
	Sgrinio gwell, lleihau'r defnydd o ffyrdd "B" lle bo modd - gwneud i bobl eisiau defnyddio'r M4.
	Arwyneb ffordd sy'n lleihau sŵn – beth yw'r gost?
Dyffryn	
✓ (5)	Blaenoriaeth uchel (iechyd a lles cyffredinol).
	Nid yw'n broblem enfawr 1/3 milltir o Gyffordd 28.

Dyffryn	
× (1)	Blaenoriaeth isel.

Cyrchnod 11. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr fesul cilomedrau cerbyd a/neu bobl	
Casnewydd	
✓ (8)	Teithio ar y rheilffordd neu fysiau.
	Rheilffordd, bysiau hirdeithiog, bysiau a cheir trydan i gyd ar gyfer teithiau cymudo i'r orsaf ac ati (angen cyfleusterau ailwefrio hefyd mewn ysbytai (meysydd parcio).
	Y ffordd orau yw creu ceir mwy effeithlon.
	Trwy dechnoleg cerbydau yn bennaf.
	Llif traffig dirwystr, a datblygiadau mewn cerbydau.
	Mae angen creu llai o dagfeydd traffig.
	Ond peidiwch â dibynnu ar y berthynas fod gyrru'n gyflymach yn creu llai o allyriadau na gyrru'n araf. Byddwch yn greadigol.
Llyswyry	
✓ (1)	Cadwch y traffig yn symud.
Magwyr	
✓ (12)	Lleihau atalfeydd – ie! (x 4)
	Gorfodi pobl i ddefnyddio ceir trydan ?
	Gwneud ceir trydan rhad
	Annog trafnidiaeth gyhoeddus.
Dyffryn	

Sylwadau siartiau troi am gyrchnodau
Holl sylwadau'r Arddangosfeydd galw heibio wedi'u crynhoi

✓ (6)	Gan y gwneuthurwyr, er bod pobl yn cadw cerbydau am gyfnodau hwy erbyn hyn.
	Ie.
	Gweithio gyda chwmnïau ceir i feddwl am ateb.
	Syniad da – ond sut?

Cyrchnod 12. Gwella'r profiad teithio i mewn i Dde Cymru ar hyd Coridor yr M4	
Casnewydd	
✓ (8)	Safleoedd Parcio a Theithio croesawgar wrth fynedfa'r porth, efallai yn cyfuno nodweddion gorau gwasanaethau traffordd Dwyrain Caerdydd (Pentwyn) a Magwyr.
	Ie, a dangos y trysorau sydd i'w cael yng Nghasnewydd a Chaerdydd.
	Er mwyn gwella buddsoddi yng Nghymru.
	Collwch y tollau!
	Mae angen gwaith celf arnom (fel y traffyrdd yn Ffrainc).
Llyswyry	
Magwyr	
✓ (15)	Lleihau rhwystredigaeth/ymddygiad ymosodol/dim teithio/presgripsiynau meddygol
	Gwella integreiddio'r rheilffordd a bysiau (canolfan drafnidiaeth STS gyda chyswllt i'r M48)
	Nid yw'r tollau yn helpu.
	Gwir (gan gyfeirio at yr uchod).
	Fel ag o'r blaen – di-dâl i mewn – talu i fynd allan.
	Dim tollau – trethi ar breswylio, domestig a busnes.
	Mynnwch gael gwared ar y tollau.
	Llif traffig gwell – cyfyngiad cyflymder cenedlaethol – oriau allfrig.
	Cytuno'n gryf – byddai hyn yn annog cludo nwyddau dros nos.
	Beth am y Rheolaeth Traffig Weithredol a ddefnyddir ar yr M42 – rheoli cyflymder ond pan fo angen.
Dyffryn	
✓ (8)	Agor y golygfeydd a rhoi mannau o ddiddordeb.
	Dod i fyny i safon yr 20fed ganrif. Ar hyn o bryd mae'n edrych yn fudr ac yn anniben.
	Mae angen i Gymru wella'i seilwaith er mwyn helpu busnesau ac ymwelwyr.
	Mae dibynadwyedd yn hollbwysig.
	Dylai cyrchnodau helpu cyflawni hyn.

Sylwadau siartiau troi am gyrchnodau
Holl sylwadau'r Arddangosfeydd galw heibio wedi'u crynhoi

Unrhyw Gyrchnodau Ychwanegol

Casnewydd

- Angen ymgyrch cadarnhaol i annog defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Tocynnau bysiau/rheilffordd trwodd ac amserlenni sy'n integreiddio.
- Plîs ymgynghorwch â Chomisiynwyr Harbwr Casnewydd.
- Gwnewch i bobl deimlo ei bod hi werth ymweld â Chasnewydd yn arbennig.
- Darparu llain galed ddynamig yn rhedeg, ac atebion eraill wedi'u profi, nawr!
- Lleihau perchenogaeth ceir, a lleihau'r galw felly, drwy addysg: rhannu ceir/HOV/beicio/disgowntiau PT.
- Gwella cymhellion ar gyfer ceir nad ydynt yn geir "sy'n llyncu petrol".
- Hyfforddiant gyrwyr i annog gyrru gwell a mwy diogel sy'n cynhyrchu llai o allyriadau, a chodi ymwybyddiaeth o ddewisiadau amgen i'r car, neu i benderfynu peidio â gwneud siwrneiau unigol.

Llyswyry

- Mae'n ddrud iawn i deithio ar y rhwydwaith i mewn i Gasnewydd – rhaid ei ostwng.

Magwyr

- Dylid edrych ar y tagfeydd sy'n cael eu hachosi gan Dwneli Brynglas.
- Mae rheolaeth weithredol ar draffig ar yr M42 yn gweithio'n dda – a yw hyn wedi'i ystyried?
- Byddai cysylltiad yr M48 yn gwella tagfeydd traffig ar y B4245.
- Angen annog y cyhoedd a nwyddau i fynd oddi ar y ffyrdd (ac ar drenau/trenau nwyddau) neu fysiau/bysiau hirdeithiog.
- Cyffordd newydd i'r M48 i wasanaethu Magwyr/Gwndy/Rogiet/Cil-y-coed.
- Rhowch arwyddion clir wrth y mannau mynediad yn rhybuddio am ddamweiniau, fel bod modurwyr yn gallu gwneud penderfyniad i osgoi'r M4. Ie!
- Beth sy'n gwneud i chi feddwl y bydd unrhyw beth sy'n fforddiadwy yn welliant?
- Cynllun rhannu ceir, gwell rheolaeth i fynd ar yr M4. Goleuadau traffig wrth gyffyrdd.
- Ie!
- Astudiwch y defnydd o'r ffordd o amgylch Cil-y-coed a'r M48, gan y gellir gwella hynny , a gallai liniaru'r traffig sy'n mynd ar yr M4 ym Magwyr.
- Gwell cyswllt o Ochr Ddwyreiniol Cil-y-coed (ystâd ddiwydiannol Twnnel Hafren) yn syth i'r M48.
- Dewch â busnes i Gymru – peidiwch â'u trethi (tollau) am deithio i mewn/allan.
- Mae cerbydau nwyddau trwm ar hyn o bryd yn defnyddio'r bont i adael ond yn dod yn ôl dros yr A48 er mwyn osgoi'r doll, ac mae hynny'n gwthio traffig ar yr is-ffyrdd.
- Cyfunwch M4 newydd â morglawdd Lagoon.
- Mynnwch reolaeth ar Bont Hafren, yn ôl i ~LICC – fel bod yr elw'n cael ei ddefnyddio er lles yr ardal/ar gyfer gwelliannau i drafnidiaeth.
- Hyrwyddo/darparu mwy o'r drefn Parcio a Theithio – a chyfleusterau Parcio a Rhannu.
- Gwella'r llwybr o'r M4 Cyffordd 28 ar hyd glan orllewinol Afon Wysg at yr SDR.
- Cyfleusterau Parcio a Theithio ar gyrion Casnewydd – ar lwybrau bysiau i Ganol Casnewydd, Caerdydd, Bryste.
- Osgoi Twneli Bryn Glas.

Sylwadau siartiau troi am gyrchnodau
Holl sylwadau'r Arddangosfeydd galw heibio wedi'u crynhoi

Dyffryn

- Mynediad o Gyffordd 25 (Ffordd Caerllion i'r M4 mewn cyfeiriad gorllewinol tuag at Gaerdydd.) (Ni ddylai erioed fod wedi'i gau yn y lle cyntaf). Hefyd, cadwch y trefniant presennol wrth y gyffordd hon. Cytuno'n gryf.
- Rhywsut, gwella Cyffordd 28 ar adegau prysur er mwyn atal traffig yn casglu yn ôl ar yr SDR.
- Er mwyn gallu gwahanu traffig lleol, rhaid cau cyffyrdd a gwneud gwelliannau i'r SDR. Yn enwedig ym mhen gorllewinol yr SDR yn dynesu tuag at Gyffordd 28. Byddai trosffordd wrth gylchfan Pont Ebwy yn gwastatau llif traffig anghyfartal, a byddai gwell mynediad i ddwyrain Caerdydd ar ddiwedd yr M48 yn lleihau'r tagfeydd wrth gyffordd 28.
- Gwell rheolaeth ar ddigwyddiadau - agor rhwystrau os bydd damwain/digwyddiad - gwrthlifau er mwyn lleihau ciwiau e.e. Aston Expressway.

6. Nodau ar gyfer Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 hyd at 2020, ac ar gyfer yr un ardal, yn y tymor hwy

Ar ôl edrych yn fanwl ar y problemau'n gysylltiedig â theithio a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n effeithio ar Goridor yr M4: Cas-bach i Fagwyr, a'r cyrchnodau y dylid eu cyflawni i oresgyn un neu fwy o'r problemau hyn, gofynnwyd i gyfranogwyr edrych ar y darlun mwy, a chynnig sylwadau ar nodau cyffredinol y Rhaglen.

Gofynnwyd i gyfranogwyr eto i ystyried y nodau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu disgrifio ar gyfer Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 hyd at 2020, a dynodi eu barnau drwy:

- ✓ *roi tic wrth y problemau a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y maent yn cytuno y mae angen mynd i'r afael â nhw, neu*
- × *roi croes yn erbyn unrhyw rai nad ydynt yn ystyried eu bod yn broblemau, ac*
- ✍ *ychwanegu unrhyw sylwadau esboniadol – pam mae'r cyfranogwr yn cytuno neu'n anghytuno â'r hyn a ddywedir, neu drwy awgrymu newid i'r broblem a nodwyd*
- ✍ *Ar ddiwedd yr adran, gwahoddwyd cyfranogwyr i ddweud wrthym pa broblemau ychwanegol ddylid mynd i'r afael â nhw yn Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4*

Mae'r tablau yn yr adrannau canlynol yn cofnodi'n llawn ymatebion cyfranogwyr i bob nod a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym wedi grwpio ynghyd y sylwadau lle nododd yr awdur ei gytundeb / chytundeb â thic, neu groes i fynegi nad oedd o'r farn fod y broblem yn bodoli, nad ydynt yn wynebu'r broblem, neu os ydynt yn meddwl bod y broblem yn wahanol i'r hyn a fynegwyd.

Mae nifer y ticiau neu groesau yn cyfeirio at gyfanswm nifer y ticiau neu groesau a ddyfarnwyd gan gyfranogwyr ym mhob lleoliad mewn perthynas â'r broblem a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r sgorau negyddol (croesau) braidd yn gamarweiniol gan fod nifer o'r sylwadau yn ymhlygu fod y cyfranogwr wedi bwriadu nodi'r gwrthwyneb.

Ar ddiwedd yr adran hon, gofynnwyd i gyfranogwyr hefyd fynegi unrhyw nodau newydd a all fod ganddynt, a fyddai'n arwain atebion tymor hwy ar gyfer ardal y Coridor, ymhellach na 2020.

2010-2020 Nod 1 Ei gwneud hi'n haws i bobl gyrraedd gwasanaethau fel siopau, ysbytai, gwasanaeth hamdden a mannau gweithio, ar y ffordd, trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio	
Casnewydd	
✓ (8)	Mae'n bwysig bod modd mynd yn hawdd at wasanaethau a datblygiadau preswyl ar drafnidiaeth gyhoeddus neu drwy gerdded a beicio.
	Angen gwella mynediad gan wasanaethau bysiau gwledig.
	Cytuno'n llwyr – trueni nad oedd y drefn fel arall, gan ddechrau gyda cherdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, ceir (mae'r drefn a ddangoswyd yn adlewyrchu'r agwedd a'r problemau ……).
	Cyflawnir hyn drwy fynd â thraffig trwodd ar ffordd liniaru newydd.
	Gwella cyfleusterau lleol yn ogystal â'r prif lwybrau.
	Dim ond yn bosibl pan fydd yr M4 wedi'i datrys.
	? Gwnewch benderfyniad ynglŷn â Phrif Ysbyty Gwent - bydd hyn yn cynnwys goblygiadau teithio i'r holl gleifion, staff ac ambiwlansys - gwnewch benderfyniad ynglŷn â safle ysbyty lleol Casnewydd (os bydd oddi ar yr SDR ac rydych yn ei ddefnyddio - canlyniad = anhrefn llwyr).
	Angen rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus cydgysylltiedig.
Llyswyry	
✓ (1)	Ie – cadw'r traffig trwodd ar wahân.
Magwyr	
✓	Rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus wedi'i integreiddio'n llawn (x 2)

Sylwadau siartiau troi am nodau
Holl sylwadau'r Arddangosfeydd galw heibio wedi'u crynhoi

(7)	
	Fel uchod – mwy o Barcio a Theithio.
	Cytuno â'r holl sylwadau uchod.
	Cytuno â'r uchod.
	Mae cwmpas yr astudiaeth hon yn rhy gyfyngedig – ni ellir datrys traffig o'r Dwyrain i'r Gorllewin yng Nghasnewydd ac ar yr M4 yn unig.
	Ond rhowch gymhellion i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
Dyffryn	
✓ (6)	Cytuno
	Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn digwydd.
	Cytuno'n gryf.
	Mae'n hanfodol fod cysylltiadau lleol yn cael eu gwella er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar yr M4.
	Cytuno.

Magwyr	
× (1)	Pam cyfyngu'ch hunain i 2010 - 2020. Adeiladwyd yr M4 oddeutu 1975 fel traffordd 2 lôn, mae ei lledu i 3 lôn eisoes yn annigonol - edrychwch ar y darlun tymor hwy - adeiladwch draphont dros y Gwastadeddau.

2010-2020 Nod 2 . cefnogi ac annog ffyniant yn y rhanbarth a ledled Cymru drwy gyflawni rhwydwaith trafnidiaeth fwy effeithlon ar y porth economaidd pwysig hwn i Dde Cymru	
Casnewydd	
✓ (10)	Yn wir
	Cytuno
	Hanfodol
	Dilëwch y doll yn 2015
Magwyr	
✓ (18)	Y rhwystr mwyaf i fusnes – tollau.
	Mynnwch gael gwared ar y tollau.
	Dylech leihau/ddileu tollau i ddefnyddwyr cyson.
	Mynnwch gael gwared ar y tollau/lleihau'r tollau, a gwella trafnidiaeth gyhoeddus.
	Tollau a phris petrol.
Dyffryn	
✓ (6)	Byddai lleihau cost y bont yn helpu.
	Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn digwydd.
	Prif flaenoriaeth.
	Blaenoriaeth uchel iawn.

Casnewydd	
× (1)	Mae ffyrdd eraill y gellid defnyddio buddsoddiad i gefnogi ac annog ffyniant yng Nghasnewydd.
Dyffryn	
× (1)	Rhy gostus ac anhyfyw.

Sylwadau siartiau troi am nodau
Holl sylwadau'r Arddangosfeydd galw heibio wedi'u crynhoi

2010-2020 Nod 3. atal a lleihau effeithiau negyddol rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 ar bobl a'r amgylchedd, a lle bo'n ymarferol, darparu gwelliannau i gydbwyso yn eu herbyn	
Casnewydd	
✓ (6)	Dileu "lle bo'n ymarferol" – mae'n ormod o gymal "esgus dros beidio â gwneud rhywbeth".
	Defnyddio bysiau a bysiau hirdeithiog nad ydynt yn llygru.
	Pwysig iawn!
	Mae ymarferoldeb yn bwysig.
Magwyr	
✓ (26)	Dim tollau, maent yn rhwystro pob teithio, busnes a phleser – meddyliwch "Dros y Ffin" (Caerloyw, Bryste a thu hwnt)
	Os sôn am yr M4 mae hyn, - ble mae'r cerdded a'r beicio'n dod i mewn?
	Edrychwch ar wella cyfleusterau ym Magwyr/Gwndy er mwyn lleihau'r angen i deithio.
	Gwella cyfleusterau beicio mewn gorsafoedd rheilffordd lleol/llwybrau beicio.
	Mae cau'r M4 yn ystod y nos wedi parhau lawer ymhellach na'r terfyn amser cyhoeddedig a sicrwydd a roddwyd gan Weinidog Trafnidiaeth LICC.
	Sicrhewch fod yr holl ardaloedd sy'n cael eu cau yn cael eu defnyddio'n llawn - nid yn gyfyngedig i ardaloedd gweithio'n unig.
	Tynnwch/gorchuddiwch arwyddion dargyfeirio pan na fyddant yn cael eu defnyddio.
	Mae gwaith ar yr M4 yn symud ymlaen yn araf deg iawn.

Casnewydd	
× (2)	Peidiwch â'i wneud – adeiladwch M4 "Newydd" yn lle hynny.
	Beth am wneud yr amgylchedd yn well?
Magwyr	
× (1)	Anelwch at leihau'r amser y mae pob unigolyn yn ei dreulio ar yr M4 – yna bydd ganddynt fwy o amser i'w dreulio yn cerdded a beicio!
Dyffryn	
✓ (3)	Nod gwych – ond sut?

Y tu hwnt i 2020. Eich awgrymiadau am nodau cyffredinol ar gyfer 2020 a thu hwnt.	
Casnewydd	
	Gwasanaeth trên cyflym iawn Llundain - Abertawe
	Rheilffordd ysgafn o gyffordd Twnnel Hafren – maes awyr Caerdydd.
	Bysiau a bysiau hirdeithiog Bryste - Caerdydd
	Fferïau teithwyr a cheir i/o dde orllewin Lloegr
	Trydanwch y rheilffordd ac annog defnyddio ceir trydan
	Ffordd Liniaru'r M4!
	Ffordd Liniaru'r M4!
	Mabwysiadu llain galed ddynamig yn rhedeg a datrysiadau wedi'u profi yn awr.
	Ffordd liniaru M4 newydd "ymhell i ffwrdd".
	Erbyn 2020 – Gwasanaeth rheilffordd Casnewydd - Glynebwy. Cyffordd mwy wrth Dwnnel Hafren. Parcio a Theithio yng Ngorsaf Llanwern. Mesurau sy'n sicrhau bod bysiau'n cael blaenoriaeth wrth gyffyrdd os ydynt yn rhedeg yn hwyr. Mwy o lwybrau beicio. Nodweddion wrth y porth. Safleoedd Parcio a Theithio.
Magwyr	
	Cyswllt yr M48. (4 x tic)
	Gorsaf reilffordd ym Magwyr/Gwndy. (1 x tic)
	Ie (1 x tic)
	Mwy o le parcio a gwell cyfleusterau wrth gyffordd Twnnel Hafren.
	Cyfuno M4 newydd â morglawdd Lagoon – mynd â'r teithio oddi ar y ffordd. (1 x tic)

Sylwadau siartiau troi am nodau
Holl sylwadau'r Arddangosfeydd galw heibio wedi'u crynhoi

	Adeiladu ffordd newydd ar ben y morglawdd (meddwl y tu allan i'r bocs!)
	Stopiwch siarad a dechrau gweithredu. (1 x croes)
	Defnyddiwch ffordd y gwaith dur – Spytty – Dosbarthu i osgoi'r twneli. (3 x tic)
	Ie, cysylltwch Llanwern - RDC a gwella'r llifoedd traffig.
	Ond bydd hyn yn gofyn am wneud gwelliant mawr i Gyffordd 23A a lonydd ychwanegol.
	Cytuno â ffordd gyswllt.
Dyffryn	
	Gwella allyriadau C02 o geir.
	Cael rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd modern sy'n addas i'r diben. Adeiladu ar gyfer y dyfodol. – Cytuno'n gryf.
	Cael mantais drafnidiaeth gyda gwelliannau a blaengynllunio er mwyn cadw ar y blaen. Cytuno!

Unrhyw Nodau ychwanegol

Ni chynigiwyd unrhyw Nodau newydd gan unrhyw un o'r Cyfranogwyr yn yr Arddangosfeydd Galw Heibio

7. Adborth am yr arddangosfa ei hun, gan gynnwys unrhyw neges derfynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Roedd y cwestiynau olaf y gofynnwyd i'r cyfranogwyr eu hystyried yn ymwneud â'r arddangosfeydd galw heibio eu hunain, a barn pobl amdanynt.

Mae mor hawdd oedd hi i chi roi eich barnau heddiw?

	1	2	3	4	5	6	7
Casnewydd			2	4	4	2	
Llyswyry						2	
Magwyr			2	1	2	16	1
Dyffryn					1	1	6

Casnewydd

- (5) – Mae angen troi datganiadau haniaethol yn gamau ymarferol, gyda chostau ynghlwm.
- (6) – Ond wedyn rwy'n hunandybus/yn unigolyn â gweledigaeth glir.
- (4 a 6) – Ocê, ond llawer o ysgrifennu i'w wneud.
- (3) – Roeddwn ni eisiau rhoi atebion, ond dim ond cyrchnodau oeddwn yn cael eu nodi, y cyfan yn ddymunol, ond sut?
- (4) – yn cwestiynu meddwl y tywysydd "y tu mewn i'r bocs". Mae angen amser arnom i feddwl "y tu allan i'r bocs", yn enwedig os nad ydym yn cymeradwyo'ch cynllun.

Llyswyry

- Cyhoeddusrwydd gwael.
- Mae'n edrych yn debyg nad oes ots gan lawer o bobl.

Magwyr

- Ond a fydd barnau pobl leol yn cael eu hystyried?
- Rwy'n gobeithio nad yw'n ymdrech ofer.
- Mwy o weithredu plîs.
- Rwy'n hyderu y bydd y barnau'n cael eu hystyried yn fanwl.
- Mae llawer o'r datganiadau yn ddatganiadau ffeithiau plaen, ac mae'n anodd llunio'n barn yn eu cylch.
- Mae gan LICC ddealltwriaeth dda o'r problemau, ond dim llawer o atebion? £
- Nid oes unrhyw ddewisiadau clir wedi'u cynnig.
- Mae'r taflenni'n rhy anodd i rai pobl eu llenwi, naill ai am nad ydynt yn ddigon tal neu eu bod yn cael anhawster eu cyrraedd – byddai taflenni ar glipfyrddau wedi bod yn ddefnyddiol.
- Mae angen datrys problemau Cyffordd 23A a Chyffordd 28 ar fyrder. Mae'r broses hon yn wastraff amser ac arian llwyr os dim ond edrych yn y canol ydyn ni! Fe fydden i'n awgrymu mai wrth Gyffordd 23A y mae'r broblem fwy!
- Pam na roddwyd unrhyw gyhoeddusrwydd i'r digwyddiad hwn? Ai polisi Cynulliad Cymru yw cadw pobl yn y tywyllwch?

Sylwadau siartiau troi am gwestiynau'r gwerthusiad
Holl sylwadau'r Arddangosfeydd galw heibio wedi'u crynhoi

Dyffryn

- Hawdd iawn, ond roedd rhai papurau braidd yn isel (x 2).
- Fe fydden i wedi gwerthfawrogi mwy o wybodaeth dechnegol am y cynigion a rhoddwyd gerbron.
- Roedd cymorth yn help mawr!

A oedd y wybodaeth.....yn annigonol / yn iawn / yn ormod

	Annigonol	Yn iawn	Yn ormod
Casnewydd	3	7	
Llyswyry		2	
Magwyr	9	8	
Dyffryn	2	7	

Casnewydd

- Mae angen mwy o gyhoeddusrwydd ac ymgynghori â busnesau lleol
- Efallai fod angen ychydig mwy am gerdded a beicio.
- Angen mwy am yr amserlen arfaethedig.
- Byddai ystadegau wedi bod yn ddefnyddiol (fel ystadegau traffig).
- Byddwn i wedi hoffi gweld y ffeithiau a'r ffigurau gwirioneddol i'm helpu i wybod beth yw'r sefyllfa go iawn. Gallwn fod wedi gwneud hyn ar wefan yn hytrach na dod at y byrddau.

Magwyr

- Byddwn i wedi hoffi gweld PTOau ychwanegol, a chofnodion cyferbyn, i gael dewisiadau gwahanol.
- Y cwmpas yn rhy gyfyngedig – angen ei ymestyn i lwybr yr M48.
- Beth yw'r dewisiadau? Faint mae LICC yn gallu'u wario?
- Beth am edrych ar lwybrau o amgylch Casnewydd?
- Roedd yn fwy nag oeddwn i'n ei ddisgwyl.
- Beth am Gyffordd 23A, mae'r broblem eisoes wedi'i chodi – wedi'i thrafod gyda Phriffyrdd Cymru.
- Braf gallu gadael sylwadau, ond byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael gwybodaeth am ddewisiadau.
- Dim digon o gyhoeddusrwydd o flaen llaw.

Dyffryn

- Gwych.
- Byddwn i wedi hoffi cael mwy o wybodaeth – fy nghadw yn rhan o'r drafodaeth.
- Rhowch wybodaeth i ni'n gyson.

A oedd y wybodaeth yn hawdd ei deall?

	Ddim yn hawdd o gwbl	Eithaf hawdd	Hawdd iawn
Casnewydd		2	7
Llyswyry		1	
Magwyr		16	3
Dyffryn		9	

Magwyr

- Ond bydd cwmpas cyfyngedig yn rhwystro llwyddiant cyffredinol unrhyw newidiadau, e.e. mae "tollau" y tu allan i faes yr astudiaeth.
- Dewisiadau?

Sylwadau siartiau troi am gwestiynau'r gwerthusiad
Holl sylwadau'r Arddangosfeydd galw heibio wedi'u crynhoi

Pa neges fyddech chi'n dymuno'i rhoi i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi fwrw ymlaen â Mesurau Gwella Coridor yr M4?

Casnewydd

- Siaradwch gyda busnesau a gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus.
- Dylai Ffordd Llanwern wella problemau tagfeydd.
- Buddsoddwch mewn trafnidiaeth gyhoeddus a cherdded a beicio.
- Darparwch borth croesawgar ac effeithlon i Gymru.
- Canolbwyntiwch ar ddarparu gwasanaeth rheilffordd amgen, ac ati. Gwella amlder gwasanaethau.
- Mae angen gwelliannau ar fyrder.
- Mae angen Ffordd Liniaru fel blaenoriaeth.
- Darparwch lain galed ddynamig, ac atebion eraill wedi'u profi, nawr!
- Rhaid i chi gynnal/gwella'r ymrwymiad i fuddsoddi yn y seilwaith trafnidiaeth yn Ne Cymru.
- Peidiwch â gwneud hynny! Ewch yn ôl at M4 "Newydd".
- Nid yr ateb yw ychwanegu cynhwysedd yn hytrach na herio'r galw. Yr ymagwedd "busnes fel arfer" sydd wedi creu'r problemau hyn yn y lle cyntaf. Gweithiwch i newid prosesau meddwl pobl ynglŷn â theithio.

Llyswyry

- Pam mae Casnewydd wedi colli allan ar fuddsoddiad mewn traffordd?
- Pam mae Casnewydd wedi colli allan ar fuddsoddiad mewn ysbyty?
- Casnewydd i'r prif borth i mewn i Gymru, ond ymddengys bod Casnewydd mewn cysgod buddsoddi ar gyfer trafnidiaeth ac iechyd o gymharu â Chaerdydd – gwarthus!

Magwyr

- Trac beicio ar ffordd y gwaith dur.
- Defnyddiwch Ffordd y Gwaith Dur i gysylltu cyffordd Magwyr â'r Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol.
- Cyswllt yr M348 i leihau tagfeydd ar y B4245, cyfyngiadau cyflymder amrywiol yn beth da.
- Gwrandewch ar eich etholwyr – peidiwch â gadael i wleidyddiaeth rwystro ansawdd bywyd ni'r trigolion!
- Meddyliwch y tu allan i'r bocs! Trafnidiaeth gyhoeddus a gofynion trawsffiniol.
- Ailystyriwch y Ffordd Gyswllt ddeheuol.
- Cyffordd ar yr M48 yn Rogiet.
- Datblygwch ffordd newydd a chyswllt ar yr M48 (rhwng Cil-y-coed a Rogiet) ac yn bwysig, datblygwch y rheilffordd. Hefyd, ailddarllenwch eich holl ddogfennau trafnidiaeth!
- Dangoswch fwy o ganlyniad nag a wnaeth y £12miliwn ar gynllunio'r Ffordd Liniaru.
- Ystyriwch lain galed yn rhedeg yn ystod cyfnodau o dagfeydd "at y gyffordd nesaf". Fel traffordd yr M42 a reolir. Cytuno.
- Wynebwch yr anochel – adeiladwch ffordd liniaru'r M4.
- Ddim yn cytuno bod angen ffordd liniaru'r M4 yn gyflawn – Brynglas yw'r broblem.
- Os ydych eisiau i bobl fod yn rhan o hyn, HYSBYSEBWCH yn iawn. Nid ar wefannau'n unig, ond ar BOSTERI go iawn – erthyglau yn y wasg leol. BYDDWCH YN AGORED.
- Twneli Brynglas yw'r brif broblem – ac mae angen edrych ar y rhain cyn unrhyw beth arall.
- Brynglas – a allai twnnel mwy modern yn defnyddio dur alluogi 3 lôn bob ffordd?

Sylwadau siartiau troi am gwestiynau'r gwerthusiad
Holl sylwadau'r Arddangosfeydd galw heibio wedi'u crynhoi

Dyffryn

- Gadewch i ni weld sut mae 3 lôn yn helpu +50mya.
- Diweddarwch seilwaith Trafnidiaeth Cymru a'i gadw felly. Cytuno.
- Cytuno ar gynllun ymarferol a CHADW ATO! Roedd dewis Ffordd Liniaru'r M4 yn drychineb o safbwynt cysylltiadau cyhoeddus = trychineb drud!
- Byddai wedi bod yn dda cael cynllun "cydgysylltiedig" a chyflwyno rhywfaint o hyn, neu'r cyfan, gyda sesiynau cynllunio Adfywio Casnewydd a gynhaliwyd y llynedd!
- Gwrandewch ar farnau pobl ac ystyried pob un ohonynt fel ei gilydd.